









PRESENTED TO THE
LIBRARY BY:


J. H. H. H.

1920





EBEN FARRD.



**Eben
Fardd.**

o

Ab Owen,
Llanuwchllyn.

ARGRAFFWYD I AB OWEN GAN R. E. JONES A'I FRODVR,
CONWY.

BYWYD EBEN FARDD.



WST 1802 y ganwyd Eben Fardd; bu farw Chwefror 10, 1863. Ganwyd ef mewn bwthyn, sydd erbyn hyn wedi diflannu, ar un o lethrau Llanarmon yn Eifion; mae ei fedd ger mur eglwys Clynog.

Mewn tlodi dygn, mewn afiechyd, mewn mysfyrdod dwys a darllen aiddgar, y treuliodd fore ei oes. Dilynai ysgol lle bynnag y cai un,—yn Llanarmon, Llangybi, Abererch, a dysgai grefft bob yn ail. Ymgymhwysodd i fod yn athraw, ond blynyddoedd celyd oedd y blynyddoedd hyny; tra yr oedd ef yn ysgrifennu ei *Awdl Dinistr Jerusalem*, dywed fod y plwy yn chwilio am lety i'w dad afiach a thlawd.

Ond yr oedd cewri ar y ddaear yr adeg honno, —clywodd yr ysgolfeistr hyawdledd John Elias, eisteddai yn aml wrth draed Dewi Wyn a Robert ab Gwilym Ddu, a mynych yr ymwelai â Sion Wyn o Eifion. A phan enillodd gader Eisteddfod Powys, yn 1824, gwelwyd fod bardd arall wedi codi yn Eifion.

Bu'n athraw yn ei gartref tan 1827. Yna, pan oedd yn dywyll iawn arno, cafodd wahoddiad i gadw ysgol yn Nghlynog. Aeth, ac yno y bu hyd ddiwedd ei oes. Rhyw £25 yn y flwyddyn oedd ei gyflog, ar ei fwyd ei hun. Priododd, dysgodd rwymo llyfrau, a medrai ei wraig bobi bara. Gweithiodd yn galed, magodd ei blant yn anwyl, ymdrechodd i ddod yn ddyn da ac yn fardd da. Llwyddodd, a daeth ei fywyd yn llawnach o hyd.

Rhoddodd agwedd lenyddol i'r Diwygiad; a phwy fedr fesur ei waith ynglŷn â chyfarfodydd llenyddol ac eisteddfodau ei wlad? Fel athraw ac fel beirniad, credai ei ddisgyblion nad oedd yn bosibl iddo fod yn well. Cymerodd ei le gyda chymwynaswyr Cymru,—Gwilym Hiraethog, Ellis Owen Cefn y Meusydd, Dr. Edwards, Cynddelw, Nicander, a'r llu o gewri y bendithiwyd Cymru â hwy yr adeg honno. Ac ni fu yn ol i'r un ohonynt, —er mai gŵr a'i wyleidd-dra mud yn ymylu ar ofn oedd,—yn ei wasanaeth a'i ddylanwad.

Y casgliad gore o'i waith yw casgliad Hywel Tudur a W. Jones, Bryngwydion. Y mae ei brif ddarnau wedi eu cyhoeddi lawer gwaith, ac y mae'n sicr y deuant yn swy-fwy poblogaidd. Dengys ei hunangofiant a'i lythyrau, gadwyd trwy ofal Myrddin Fardd, mor hoffus oedd ei fywyd, ac mor ddyledus yw parch iddo.



Rhagair.



ELE dair o awdlau Eben Fardd, a rhai o'i adgofion am fore ei oes ac am gymdeithion ei febyd.

Gwaith gwanwyn ei fywyd yw **AWDL DINISTR JERUSALEM**. I ennill cader Eisteddfod Powys yr ysgrifennodd hi, yn haf a gaeaf 1823 a gwanwyn a haf 1824. Yr oedd wedi darllen ei Feibl yn ofalus, a darlennodd yr hanes rydd Josephus am y rhyfel chwerw rhwng y Rhufeiniaid a'r Iddewon. Enillodd Josephus ei gydymdeimlad hefyd. Nid yw cynllun yr awdl yn berffaith, ond y mae saerniaeth fanwl a chelfydd arni; a thybiodd Gwallter Mechain, with ei darllen, ei fod uwchben meddyliau athrylithgar Dewi Wyn. Y mae yr awdl hon hyd heddyw y fwyaf adnabyddus o awdlau Eben Fardd, oherwydd ei bod yn ferr, yn llawn darluniau byw, ac ar destyn adnabyddus.

Gwaith haf ei fywyd yw **AWDL BRWYDR MAES ROSWORTH**. I ennill cader Eisteddfod Llangollen, yn 1858, yr ysgrifennodd hon. Dengys ef ar ei oreu fel cynllunydd medrus ac fel chwiliwr manwl. Er ei fod yn rhoi gormod o glod i Syr Rhys ap Thomas, a rhy ychydig i Stanley, y mae wedi llwyddo i roddi bywyd y canol oesoedd yn gywir a byw. Ynni'r frwydr, a gwladgarwch brwd, yw prif swyn yr awdl hon.

Gwaith cynhaeaf euraidd addfed bywyd Eben Fardd yw **AWDL y FLWYDDYN**. I ennill cader Eisteddfod Caernarfon, yn 1862, yr ysgrifennwyd hi. Enillodd y ddwy awdl arall gader, ond ni

roddwyd buddugoliaeth i hon. Eto hi yw camp bywyd y bardd, ac erys yn un o drysorau pennaf yr iaith Gymraeg. Gellir ei darllen bob dydd heb flino arni, a daw rhyw dllyni newydd i'r golwg yn barhaus. Nid o dudalennau Josephus neu Fabyan y cafodd ddefnyddiau at hon, ond o fywyd o graffu, gyda phleser angerddol, ar haf a hydref, gaeaf a gwanwyn, yn swyn byth-newydd eu tro, ac yng nghyfoeth dihybydd eu tlyni. Y mae yn yr awdl ugeiniau o ddarluniau, a phob un mor fyw fel y dug lawenydd i'r meddwl drwy ddeffro adgofion am olygfeydd tebyg. Y mae pob peth mor wir, y mae pob darlun mor gain, y mae'r cydymdeimlad mor fyw, fel y mae ystor o hyfrydwch yn drysoredig yn AWDL Y FLWYDDYN. Nis gwyddom pa un ai plentyn aiddgar ai athronydd hapus yw'r bardd amlaf. Gellir dechreu lle y mynnwn, gellir aros hynny fynwn uwch pob darlun,—teimlwn o hyd mor onest, mor bur, mor wylaidd yw Eben Fardd wrth ddilyn camrau creadigol Duw.



Cynhwysiad.

AWDL DINYSTR JERUSALEM :

Golwg, fore cynnar, ar Gaersalem	9
Daroganau galar a gwae	13
Titus a'r Rhufeiniaid yn dynesu .. .	16
Yr ymladd chwerw, galar Rahel .. .	18
Tanio'r Deml, cwmp Caersalem .. .	21

ADGOFION A CHYFODION :

Annerch John Jones, Talysarn	78
At yr Eifionwyson	24
Gwanwyn	63
Eifionnydd	69
Fy Mhlant	79
Marwnad John Elias	72
Molawd Clynog	62
Ymweliad a Llangybi	64

AWDL Y FLWYDDYN :

Annerch yr Awen	25
I. GWANWYN. Wyn, gwyntoedd, adar, blodau ..	27
II. HAF. Tes, gloyn byw, gwenyn, eog, trin gwair, taranau, llawenydd	37
III. HYDREF. Cynhaef, cwmp y dail, gwlaw, niwl prudd-der adar	47
IV. GAFAF. Rhew distaw, noson loergan, ysturm eira, y teulu dedwydd	54
Gwyliau, blwyddyn gron	59

AWDL BRWYDR MAES BOSWORTH :


Yr Awen a Maes Bosworth	80
Hen gystuddiau Prydain	82
Rhyfeloedd y Rhosynau	89
Llaw Cymru gyda Harri Tudur .. .	93
Ymdaith y lloedd i Bosworth	95
Y frwydr galed, chwerw	98
Syr Rhys ap Tomos, pryder Stanley ..	103
Buddugoliaeth i Gymru	108



Y Darluniau.


- EBEN FARDU *Wynneb-ddarlun.*
" Bardd ydwyf, heb air i'w ddwedyd,
Na barn ar ddim yn y byd."
- CLYNOG *Wynneb-ddalen.*
S. MAURICE JONES.
" Mor glysiôn mae'r eglwysydd,
Rhwyng coedllyn rengaen coeddydd."
- JERUSALEM *I wynebu tud. 9.*
" Jerusalem fawr islaw im fydd—gân
Ar gymmar foreuddydd."
- GWYNTOEDD Y GWANWYN *I wynebu tud. 25.*
ARTHUR E. ELIAS.
" Yn ei gôb fawr yu gwilio
Drwy'r ffordd, â'i galre ar fio."
- PLADURWYR YR HAF *I wynebu tud. 41*
ARTHUR E. ELIAS.
" Gwisgi o glun ac esgair,
Di ludd eu hynt at ladd gwair."
- TYWYSENSAU'R HYDREF *I wynebu tud. 65*
ARTHUR E. ELIAS.
" Orchuddir gan geirch a heiddiau—llawn, glân,
A digon weithiau o deg weithiau."
- FERYDLIFOEDD Y GARAF *I wynebu tud. 81*
ARTHUR E. ELIAS.
" Agenir y clogwyui
I eigion llawr i'gan y lli."





JERUSALEM.

"Cref iawn oedd, ac ar fynyddau—gilyth
Adeiladau ei chaerau."



EBEN FARDD.

DINISTR JERUSALEM.

AH ! dinistr ! dinistr yn donnau—chwalodd
Uchelion ragfuriau,
A thirion byrth yr hen bau,
Caersalem sicr ei seiliau.

Cref iawn oedd, ac ar fynyddau—dilyth
Adeiladwyd ei chaerau ;
Yn ei bri hon wnaï barhau
Yn addurn byd fynyddau.

Af yn awr i fan eirian,—golygaf
O glogwyn eglurlan,
Nes gweld yr holl ddinas gan,
Y celloedd mewn ac allan.

Jerusalem fawr islaw im fydd—gain
Ar gynnar foreuddydd ;
Ei chywrain byrth a'i chaerydd
I'w gweld oll mewn goleu dydd.

Ceinwech brifddinas Canan—oludog,
Fawladwy, gysegrlan ;
O uthr byrth a thyrau ban,
Myrdd ogylech—mor ddiegwan !

Ei hoff balasau, a'i phobl luosog,
Dawnus lywiawdwyr, dinas oludog,

Ei berthawg rannau, hen byrth gorenwog,
 Muriau diadwy, O mor odidog !
 Addien serenawl ddinas ariannog,
 Cywrain a llawen, ceir hi'n alluog ;
 Heddyw o'i rhwysg nid hawdd yr ysgog—hi,
 Hawddamor iddi, le hardd mawreddog.

Uwch ei rhagfur, ban, eglur binaglau,
 Tai cyfaneddol, tecaf neuaddau,
 Lluon i'w 'nabod, llon eu wynebaw,
 Sy'n chwai a diwyd mewn masnach deiau,
 Heirddion eu gwedd drwyddi'n gwau—yn
 drwyadl.

Tawchog anadl ddyrch hwnt o'i cheginau.

Ni bu le eisor, llawn o balasau,
 Iesinawg agwedd ei synagogau,
 Eu gwedd arnodwyd âg addurniadau,
 Ie, llawn addurn ei holl aneddau ;
 Ac o fewn y trigfannau—ffrwyth y tir
 Er budd monwesir heb ddim yn eisiau.

Urddedig ddysgedigion,
 Ddawnus wŷr, drwy'r ddinas hon
 Ymrodiant mewn mawrhydi,
 Addurnant, a harddant hi ;
 Y rabbiniaid a'r bonedd,
 Eu dysg da ddadguddia'u gwedd,
 Wele, rhinwedd olrheinant,
 Fawrion wŷr, mysyrion wnant.
 Heirddion ser y ddinas hon
 Yw ei thrwyawl athrawon ;
 Addas beunydd esboniant,
 Geiriau Ner agor a wnant ;
 Ac efryd yn y Gyfraith
 Ddofn a gwir, ddeddf enwog iaith.

Ni fu ddinas mwy llawn o feddiannau
 Yn trin cymaint o arian ac emau ;
 Un orhoff, orlawn o aur a pherlau ;
 Ceir ynnod luosog gywrain dlysau,
 Arogus, wiw-goeth, rywiogawl seigiau,
 Olewydd, gwinwydd, i'r genau—rydd hon,
 O ! ddinas wiwlon, ddaionus, olau.

Lliwdeg ddyffrynnoedd llydain,
 Sy o gylch y ddinas gain ;
 Llwyni fyrdd yn llawn o faeth,
 Llwyni, llennyrch, llawn lluniaeth ;
 Y blodau wynebledant,
 Ac yn eu nôdd gwenu wnant ;
 Dyferion gloewon y gwllith
 Clau, ar eginau'r gwenith,
 Glaswellt a gwyrddfrig lysiau
 Ymhlith y blodau'n amlhau :
 Gerddi teg, iraidd eu twf,
 Dillyn ardal llawn irdwf.
 Cu ydynt y cawodau,
 Y fro sech a wnant frashau ;
 Haul glwys i loewi y glyn
 Ergydia'i belydr gwedyn.

Aml res euraidd, mil o ros Saron,
 Geir, a lili a'i gwawr oleulon,
 Ar dwf iraidd, yn rhoi dyferion,
 O deg liwiau, hynod, a gloewon.

Acw yn y tiroedd clywir cantorion
 A'u syml, luosawg, leisiau melysion ;
 Anian ogleisiant—O donau glwysion !
 Ar gangen eiddil, per gynganeddion ;
 Pereidd-der, mwynder eu meindon—chwâl fraw,
 Ffy, derfydd wylaw a phwdr-feddylion.

O ! hardd frodir ddyfradwy,
 Ei dwfr glân adfer o glwy
 Y dyn fo dan waeau fyrdd,
 Gloesion iachâ'i dwfr glaswyrdd :
 Gerllaw o du'r gorllewin
 Wele, rhed yn loew ei rhin
 Hen ffrwd lon Gihon deg wawr,
 Dirionlif, hyd raianlawr ;
 Deifr Etam, Siloam lyn,
 Pereiddflas, wyrddlas harddlyn,
 Yn ei godrau hen Gidron,
 Tra gloew o hyd treigla hon :
 Dŵr llonydd gyda'r llwyni,
 Tra llawn yw y tir o'i lli.

Ond O ! i'r uchel harddfryn edrychaf,
 Moriah amryliw mewn marmor welaf.

Ah ! dacw ymlaen acw y Deml enwocaf
 O'r un a seiliwyd, arni y sylwaf ;
 Gweled i gyd ei golud gaf,—a hi,
 Damlygir ini, yw'r Deml gywreiniaf.
 Heirdd golofnau, eiliadau goludog,
 Canpwyth cywreiniawl, cnapwaith coronog ;
 Gwnaed mewn dulliau y gwniad mandyllog,
 Wynebir ogyrch â gwinwydd brigog :
 Sypiau gawn o'r grawn yn grôg,—gwyrddion
 ddail

I'r hynod adail eirian odidog.

O'r melynaur amlenni—roed yn wych
 Ar hyd ei nen drosti ;
 Anfon ei lon oleuni
 Mae'r haul ar ei muriau hi.

Ond O ! alar a'n dilyn,
 O ! 'r wylo hallt ar ol hyn ;

Holl aniau fyddo'n llonydd,
 Na seinied edn nos na dydd ;
 Distawed, na chwythed chwa,
 Ac ust ! eigion, gostega !
 Na fo'n dod fyny i dir
 Eildon o'r Môr Canoldir ;
 Iorddonen heb dwrdd ennyd,
 Gosteg ! yn fwyndeg drwy fyd,
 Na fo dim yn rhwystr imi,
 Na llais trwm i'm llestair i.

Rhagwelaf drwy argoelion,
 Na saif yr hardd ddinas hon,
 Am hiroes yn ei mawredd,
 Adfeilia, gwaela ei gwedd.

Ger bron mae gwawr wybrenawl—darlleniad

O'r lluniau rhyfeddawl ;
 A ddengys ei gwedd ingawl,
 Leiheir mwy yn llwyr ei mawl.

Ceir Anian oll yn crynnu
 A braw llawn, crynn wybr a'i llu ;
 Aruthr yw ! hi wrth red
 Er dangos ei chwerw dynged ;
 Ac O ! lef drom glywaf draw,
 Hynod sw'n yn adseiniaw ;

Yn awr darogana rhyw drigienydd,
 Rhua drwy alar hyd yr heolydd,
 Ac o'i ben "*Gwae !*" "*Gwae !*" beunydd—a
 glywaf,

Effro y sylwaf ar ei phreswlydd.

Ond Duw ar unwaith sydd yn taranu,
 Ail sw'n llifeiriant ei lais yn llafaru ;
 Ei air gorenwog wna i'w mur grynnu
 Geilw'n ddiatal y gâlôn o'i ddeutu ;

Eben Fardd.

Ysa y faru y ddinas fu—yn gref,
 Omdwy'r faullef wua dewr Rufeinllu.
 Do, rhagdraethwyd y rhwygiad i'r eithaf,
 Gan Grist, ddwyfol, urddonol hardd Wiwnaf.
 Gwir daw garw adwyth, gair Duw a gredaf,
 Mwy ar Gaersalem, a mawr gur, sylwaf;
 Daw dydd yn wir, dywedodd NAF—y dryllir
 Mar aew dernir ei muriau cadarnaf.

Maen ar fien yma yn hir fu—ond ow !
 Andwyir, medd Iesu ;
 Dyma le gaed yn Deml gu,
 Hon, oeh ! welir yn chwahu.

Yn fuan y nodawl fan annedwydd,
 Wiw, gysegredig, a wisg waradwydd,
 Gwaela ei chyllwr, gwelwch ei haflwydd ;
 Agos ei rhwygiad megis ar ogwydd,
 Deffroa llid, a phar i'w llwydd—beidio,
 Cyn ei malurio y cawn aml arwydd.

Y grasol Iesu a groeshoeliasant,
 Am hynny gofid miniawg a yfant ;
 Un Duw ein bywyd ni adnabuant ;
 Llu o goeg enwau yn lle gogoniant,
 Tr IESU anwyl, roisant—a bythol,
 Tragwyddol, ddwyfol lid a oddefant.

Gorffwysaf, safaf yn syn,
 Nodaf am un munudyn ;
 Cynnwrf a thwrf sy'r waith hon,
 Rhyw fygwth rhwng arfogion,
 Mewn goror, man a gerid,
 Nid oes lle nad ysa llid ;
 Marwolion amryw welir
 O fewn tai cryfion y tir.

Y ddinas oedd i Anian—yn addurn,
 Heddyw'n ddiennyddfan ;
 Anhawdd fydd cael ynddi fan
 Heb och gan fawr a bychan
 Eleasar bar loesion—a niwaid
 Wna Ioan a Simon ;
 Dewr dylwyth, diriaid âlon
 A neshant i'r ddinas hon.

Llid geir oddifewn, trallod, griddfannau
 Sw'n trueiniaid ac adsain tariannau,
 Gorthrech, gwrthrestr, a'u callestr bicellau,
 Ochran't i wared yn chwyrn o'u tyrau,
 Gwelwch y meirwon o gylch y muriau,
 Ba ryw gelanedd ! briwa galonnau.
 Gwynfydodd gan ofidiau—'r ddinas gain,
 Mae'n mawr wylofain mewn amryw lefau.

Bwâu a welir gan y bywiolion
 Cedyrn, dirus, ryfygus arfogion,
 Tra hyf trywanant eu heirf trwy weinion ;
 We'e'n y ddinas fu llawn o ddynion
 Le anhymoraidd, geleiniau meirwon ;
 Miloedd gwaeddant, amlhaodd y gweddwon ;
 Bu â chig y beichiogion—frashau gwer
 Hyd ryw nifer o'r adar annofion.

Lladron, llofruddion yn llu afrwyddawl
 Ysant y ddinas, O ! nid diddanawl ;
 Gan aml lueddu â gwŷn ymladdawl,
 Drwy dân ysant bob gwycheder dinasawl,
 O ! wastraff a rhwyg dinistriawl—a wnant,
 O ! chwyrn ddiſiant a chur anoddefawl.

Ar Jerusalem y tremiaf—ddinas
 A ddenai'r rhan fwyaf,

Heddyw'n ei chylch hedd ni chaf,
Garw y sw'n ! ah ! gresynaf.

Ha ! fradwyr anhyfrydol,
Trech yw Naf, O trowch yn ol !
Gorffwyswch, sefwch dros awr,
Er eich arfog roch erfawr—
Dofydd o'r nef a lefair,
Enciliwch oll, clywch ei air.

Geilw Rufeiniaid, gwroniaid gorenwog,
I wyneb gâlôn, eon, bygylog ;
Deuant, lladdant mal cewri llueddog,
Titus a'i ddirus fyddinoedd eurog,
Anorfod ddewrion arfog—llawn calon,
Gâlôn terwynion, glewion, tariannog.

O dir ochain, edrychaf,
Neud tu a'r nen troi a wnafl ;
Mewn cur rhyw gysur geisiaf
Diau mae'n chwith, dim ni chaf ;
Rhyw gwynaw gan rai gweinion
Sy ar bob llaw, braw i'm bron.

I'r ddinas mae myrddiynau
Megis seirff am agoshau ;
Gwelaf, debygaf o bell,
Ymwibiant ger fy mhabell ;
A'u hedrychiad yn drachwyrn,
Dewrllu yn canu eu cynn.
Wynebu a gwanu gwynt,
O'u blaen gyrru blin gorwynt,
Tincian eirf glân, dyrfawg lu,
Chwai bennwn yn chwibanu ;
Rhedant, eu meirch ant mor chwyrn,
Hwnt ergydiant trwy gedyrn ;

A phar anadl eu ffoenau,
 Yn un llen i'r nen wyllhau—
 Nifwl yn gwmwl a gerdd,
 Hyd wybr deg hed brwd agerdd—
 Chwyrn welediad ofnadwy,
 Annof, y meirch ofnaf mwy,
 Eu llygaid tanbaid bob tu,
 Oll tanynt yn melltennu,
 Ysgogant mewn rhwysg agwrdd,
 Ymdaflant, hyrddiant mewn twrdd.

Golygaf, ac af o'm cell
 Allan, caf weled wellwell,
 Dda drefn yr holl luoedd draw,
 Ba ddynion sy'n byddinaw ?

Titus flaenora'r dyrfa frwd arfawg,
 Canan wna'n brit-ffordd i'w osgordd ysgawg,
 O mor ddiffin ei fyddin arfeiddiawg,
 Rhai'n trin y bwa, rhont droion bywiawg ;
 A'u dieisor dywysawg—uchelfron,
 Trecha ei elynion tra chalonnawg.

Ac allan daw'r picellwyr,—hwy fwriant
 Rai'n farwol gan wewyr ;
 Anturiol, gwrol y gwŷr,
 A dewrion esgud aerwyr.

Yna'r marchluoedd floeddiant,—rhyfelwyr
 Filoedd a ddilynant,
 Ni luddir, iawn lueddant,
 Cedyrn, llunon chwyrn, llawn chwant.

Eto rhyfeddaf ar hynt arfeiddiog,
 Dewrion benaerwyr, cedyrn banerog,
 Nesânt i'm gŵydd, a'r arwydd eryrog
 Ar eu llumanau, llennau cynllunio :

Yn ol y rhain, wele'r enwog—filwyr
A'r holl udganwyr, lleiswyr lliosog.

Imi, och ! y mae achaws—i wyllo
O weled y lluaws,
Yma'n chwynn oll mewn chwerw naww,
Modd ingol yn ymddangaws.

Aerawg weitch enwog yn awr gylchynant
Yr holl furiau, a dewr y llafarant ;
Lewion uchelwyr ! yn ol ni chilianant,
Aml fyrddiynau yn rhesau ni rasant,
Eithr i fewn rhuthro fynnant—yn wrol
A'r lle addurnol yn ddrylliau ddarniant.

Suddir y dinasyddion—o 'ngolwg
Yngwaelod trallodion,
O echrys air ! chwerw yw son
O ! 'r gwelwi mae'r trigolion !

Ffoant rai o'r ffiniau trist
O ethryb y braw athrist ;
Llesg, gweinion, a blinion blant,
Tra 'mddifaid, trwm oddefant,
Heb un tad wedi'i adael,
Mwy, mwy chwith, dim mam i'w chael ;
Rhieni mawr eu rhinwedd,
Fu'n llon, sy gulion eu gwedd ;
A braw tost, ryw fyrdd bryd hyn
A gnoa y dygn newyn.

Gwelaf Rahel, isel, lwys,
Yn wyllo, fenyw wiwlwys,
Am ei gŵr yn drom ei gwedd,
A'i henaid mewn anhunedd ;

Hi ddywed yn grynedig,—
 " Yma nid oes namyn dig,
 Llid a chŵyn, trallod a chur,
 Dialedd a phob dolur ;
 O ! fy mhriod a godai,
 Llon wr rhydd, allan yr ai,
 Llŵfr oedd, a d'ai llofruddion,
 Clwyfent, hwy frathent ei fron ;
 A thrwy boen fe aeth o'r byd,
 Ni welaf mwy fanwylyd.
 Minnau o'm bro a sloaf,
 Cyn y dydd, ac onid af,
 Anheg glwyf drwy fin y cledd,
 A newyn fydd fy niwedd.
 Fy mhilant bychain, eich sain sydd,
 Yn boenawl i mi beunydd ;

" Bellach rhaid gwibio allan,
 Hwnt ymbell—*Dowch fy mhlant mân.*"

A deg ochenaid hwy gydgychwynant,
 I'w taith, drwy anobaith, draw wynebant ;
 Ac o furiau y ddinas cyfeiriant
 Dua'r mynyddoedd i droi am noddiant ;—
 Trwy angau nychlyd trengant,—o ogof
 I hen wlad angof, yn wael diengant.

Hyf lueddwyr, hwy a floeddiant,—i'r frwydr
 Ar frys y goruthrant ;
 Y DDINAS a feddiannant,
 A'u holl nerth ei dryllio wnant.

Ewybr ennill, A'u hwrdd-beiriannau,
 Trwm, erwin ddyrnant, a'r mur yn ddarnau,
 Trwy ei ganol torri agenau,
 Eu hergydion a wnant rwygiadau ;
 O ! 'r niweidiol ddyrnodiau—a roddant
 Hwy fawr dyrfant anhyfryd arfau.

Aerwyr, ymbleidwyr, heblaw—rhyw gannoedd
 Drwy gynnen yn unaw ;
 Eidiog àlon digiliaw,
 Gofid, a lliid ar bob llaw.

Lliwir â gwaed y llawr gwiwdeg,—o fewn
 Afonydd yn rhedeg ;
 Bywiog gurant bob carreg
 O'r muriau a'r tyrau teg.

Trwy eu dymunol heolydd—ffriwdeg
 Y ffrydia gwaed beunydd ;
 Bawdd o fewn,—ba Iddew fydd
 Mwy a gâr ei magwrydd ?

Trwy'r ddinas, galanas wna'r gelynon,
 A gorwygant yn anrhugarogion ;
 Lladdant, agorant fabanod gwirion ;
 Ow ! rwygaw, gwae rwyfaw y gwryfyon ;
 Anniddanawl hen ddynion—a bwyant,
 Hwyl ni arbedant mwy na'r abwydion.
 Swn anniddig sy yn y neuaddau,
 I drist fynwes pwy les wna palasau ?
 Traidd galar trwodd i giliau—gwyhion
 Holl dai y mawrion, er lled eu muriau.

Nychir y glew gan newyn,
 Ac O ! daw haint gyda hyn :
 Dyna ysa'r dinaswyr,
 Hwyl ant i'r bedd mewn tro byr ;
 Bonedd a gwreng yn trengi,
 Gweiniaid a'u llygaid yn lli.

Y pennaf lueddwy'r, O ! pan floeddiant,
 Acw'r gelltydd a'r creigiau a holltant ;
 Eraill gan loesion yn waelion wylant,
 Eu hanadl, a'u gallu, a'u hoedl gollant ;

Gan boen a chur, gwn, byw ni chant,—angau,
 Er gwae ugeiniau, dyrr eu gogoniant.
 Ys anwar filwyr sy yn rhyfela,
 Enilliant, taniant gastell Antonia ;
 Y gampus DEML a gwympa—cyn pen hir ;
 Ac O ! malurir gem o liw eira.
 Wele, drwy wyll belydr allan—fflamol
 A si anaturiol ail swn taran :
 Mirain Deml Moriah'n dân—try'n ulw—
 Trwst hon clyw acw'r trawstiau'n clecian !
 Yr adeiladaeth ddygir i dlodi,
 Be ba'i cywreiniach bob cwrr o honi ;
 Tewynion treiddiawl tân a ant trwyddi ;
 Chwyda o'i mynwes ei choed a'i meini ;
 Uthr uchel oedd, eithr chwal hi—try'n llwch,
 A drych o dristwch yw edrych drosti.
 Fflamau angerddol yn unol enynnant,
 Diamau y lwyswych DEML a ysant ;
 Y dorau eurog ynghyda'r ariant,
 Y blodau addurn, a'r cwbl a doddant,
 Wag annedd ddiogoniant—gyda bloedd
 Hyll bwyir miloedd lle bu roi moliant.
 Llithrig yw'r palmant llathrwyn,
 Môr gwaed ar y marmor gwyn.

Eto rhwng udiad y rhai trengedig,
 Lleisiau, bloeddiadau y bobl luddedig,
 A swn y fflamau, ffyrnau uffernig,
 Tristwch oernadau, trwst echrynedig,
 A'r fan oedd orfoneddig—olwg drom !
 Ow ! ow ! mae'n Sodom anewisedig.

CAERSALEM, deg em digymar,—oeddit
 Addurn yr holl ddaear,
 Wedi'th gwymp pwy gwyd a'th gân ?
 Ymgelant yn mhau galar—

Udaf, can's daeth fy adeg,
 Ni sai dim o'r ddinas deg ;
 Och ! nid oes o'r gwychion dai
 Aneddol gongl a'm noddai ;
 O ! 'r llysoedd a ddryllasant
 I lawr o'u cwrr lawer cant ;
 Dinas gadarn yn garnedd,
 Addien fu—Ow ! heddyw'n fedd.
 MYNYDD SION dirionaf,
 Yn ddu i gyd heddyw gaf ;
 Eirian barth, arno y bu
 Dyledog adeiladu ;
 Prif balas y ddinas dda,
 Oedd eurog, emog, yma,
 Trowd yn adfail, sail y sedd
 Freninol, firain annedd ;
 Torri, difa TWR DAFYDD,
 O'i dirion sail, darnau sydd ;
 Y mynydd oll, man oedd wych,
 A'i gyrrau yn aur gorwych,
 Heddyw â lludw ddilledir,
 Sawyr tân sy ar y tir.

Meirwon sy lle bu'r muriau—rhai waedant,
 Ddrewedig domennau ;
 Ni wyddir bod neuaddau,
 Neu byrth erioed yn y bau.

Darfu'r aberthu am byth,
 Dir, o gof yn dragyfyth.
 Wylofus gweld y Lefiaid
 Yn feirw, yn y lludw a'r llaid.

Plaid y Rhufeiniaid o'r fan
 Ar hynt oll droant allan ;

Rhyfelwyr llawn gorfoledd,
 A llu gwyech mewn dull a gwedd ;
 Mawrhydri ymerodrol
 Ddanghosant, pan ant yn ol ;
 A da olud i'w dilyn,
 Byddin gref—heb ddyn a gryn.

Wele y ddinas heb liw o ddynion,
 O ! O ! drwm haeriad, ond y rhai meirwon ;
 Heb le aneddawl i bobl newyddion,
 Rhuddwaed ac ulw yw'r eiddo âd gâlôn,
 O ! mor wael, a marwolion !—ceir hyll drem
 Mwy ar GAERSALEM, er gwae'r oesolion.

Y fan, i fwystfilod fydd,
 Tynn rhai gwylltion o'r gellyydd ;
 Byw wrth eu melus borthiant
 Yma ar gyrff y meirw gânt ;
 Cigfrain yn gerain o gwrr
 Draw y pant, gyda'r pentwr ;
 A'r lle glân, wedi'r holl glod,
 Llenwir o ddylluanod ;
 Pob bwystfil yma gilia.
 Hoffi yn hon ei ffau wna ;
 Diau af finnau o'r fan,
 Mae'n well i minnau allan ;
 A gado'r fan rwygedig,
 Ddi drefu, i'r sawl ynddi drig.

Ah ! wylaf, ac af o'i gŵydd,
 Hi nodaf yn annedwydd ;
 Distryw a barn ddaeth arni,
 Er gwae tost gorwygwyd hi.

AT YR EIFIONWYSON.

PAN oeddwn gynt yn laslanc llwyd,
 Fe'm magwyd yn eich mysg ;
 Yn ŵyl a syn wrth draed Sion Wyn
 Y bum yn derbyn dysg.

CYDGAN,—

Ond er na chân eich llais di lyth
 Dôn mwyach byth i mi,
 Bydd cof hyd fedd o'ch pryd a'ch gwedd
 Yn wledd i nghynnal i.

Gwyr Eifion deg ! Rhyw funud awr
 O oes neu dymawr dyn
 Y ces y rhad o ganiatad
 I fod â 'ngwlad ynglŷn.

Yn hir caiff eraill eich mwynhau,
 A minnau draw ymhell ;
 I dŷ nid af, a chwrr ni chaf,
 Lle gallaf weld eich gwell.

Gynt eich cerddorion llon eu llais,
 Eu sain a glywais i ;
 Pa le mae Sal, a ganai 'i gwal,
 Hoff oedd ei hardal hi.

Ond er na chân eu llais di lyth
 Dôn mwyach byth i mi,
 Bydd cof hyd fedd o'u pryd a'u gwedd,
 Yn wledd i nghynnal i.





GWYNTOREDI Y GWANWYN.
"Dacw'r hwtyn dyn ar daith,
A'i amwisg ar fynd ymarith."

Y FLWYDDYN.

Gair at yr Awen.

“**Y** FLWYDDYN,” mawr fawl iddi,
“Y FLWYDDYN” yw 'nhestyn i ;
“Y Flwyddyn” sy' destyn da
I'r awen a'i hamrywia ;—
Gan hynny rhag un anaf
I gof nôd Gaeaf a Haf,
Tyrd, Awen, tro dy hewyd
At amcan y gân i gyd.

Deffiniad anianyddol y Flwyddyn.

Blwyddyn, mesuryn amserol—ydyw,
O'i adeg dymhorol,
Y dyry'r glôb daearol,
Drwy emau ser, dro am Sol.

Hyd eu blwyddyn tynn plant dynion—yn ddoeth
Oddi ar yr un safon ;
Er nad yw eu diwrnodion
O'r un rhi a ni yn hon.

Y Ddaear i bawb ddywed
Eu blwyddyn,—sef yr hyn 'red
O dreigl i dreigl, un llawn dro,
Gwmpas Palas Apolo ;
Dyna flwyddyn dyn, â'i deg
Bentymor, heb wneud dameg.

*Annerch pellach at yr Awen, ar iddi ym-
ddyrchafu i Alban Eilir yn arwydd yr Hwriad
ac ymsefydlu yno at waith y gân. Deisyfiad
am ei hysbrydoliaeth.*

Hed, Awen, i ben y byd,
Hed ar enfys dwyreinfyd ;

Yna'n uwch, o nen i nen,
 Hofia trwy y ffurfafen ;
 Esgyn, disgyn, ar d' esgyll,
 Trwy dragwyddawl wawl neu wyll ;
 Yna sefydla'n fodlon
 Ar ryw hirbell linell lon,
 Yn nhalaeth Alban Eilir,
 Lle mae'r Hwrdd, y llamwr hir,
 Yn troedio crib trideg gradd,
 Yn ehud iawn, i wahadd
 Ato yr haul, yn hynt ei rod,
 I westa am ryw ystod :
 Dyna lle cei weld anian,
 O'i thirion gylch, i'w throï'n gân, —
 Y ddaear yn ymddeawl
 Yn bêl bach, o bawl i bawl,
 A'i threiglâd trwy uthr wagle
 I uchel nôd, gylch haul ne ;
 Gan wneyd, fel hyn, y testyn tau,
 " Y FLWYDDYN," yn fil o weddau.

O'th le balch, wrth haul y byd,
 Llanw fi, yr holl ennyd,
 A'th nefol anian ganu,
 At wedd gas, neu at wedd gu,
 I'w troi yn wir bortreïad
 Hardd o fodd, yn y gerdd fad,
 Fel anian ei hunan,—hyn
 Deifi addysg da y flwyddyn.

Dan dy sel, mewn haul belydr,
 Gyrr i mi y geiriau mydr,
 A'th ysprydiaeth sibrydol,
 I'm rhaid, na bo dim ar ol.

I. Y GWANWYN.

Yr weyn bach.

Dechreu 'nghân fydd y Gwanwyn,
 Yr adeg i eni ŵyn,
 Bethau clyision, gwirion, gwâr,
 A diniwaid yn naear.
 Ymlamant yn aml yma,
 A'u "me" mwyn, a'u "ma," "ma," "ma;"
 Gan heidio, gwylltio trwy'r gwellt,
 Yn glyision hyd y glaswellt :
 Miwsig oen ym maes gwanwyn,
 O ! y mae yn fwsig mwyn !
 A mamog weithiau'n mwimian
 Yn fwy cre' i "me" na'r ŵyn mân ;—
 Bref côr yn brefu cariad,
 Neb yn medru brefu brad ;
 Neb i gynnyg bugunad
 Rhyw filain, oer, ryfel nâd.
 Yr ŵyn, dangosant ronyn
 O gamp Duw. cyn i gwymp dyn
 Anurddo eirian arddull
 Anian deg, union ei dull ;
 Cyn y codwm, drwm dremynt,
 Anian gain oedd yn oen gynt.
 Heibio'n bur ar ben bore
 Daear â'i llwyth droi i'w lle ;
 Yn chwern rôd, chwareuai'n rhwydd
 Yn hoewdra diniweidrwydd,
 Yn gyson, heb ddygasedd,
 Fel yr oen mewu hoen a hedd :
 Mwyn oedd anian ym mŷr.
 A diniwed yn awyr.
 O ! lwys baradwys, berr ydoedd ;
 Brudded yw mai mal breuddwyd oedd !

Awelon y Cyhydedd.

Awelon uchel a lawenychant,
 Adeg cyhydedd eu nwydau codant ;
 Ag ynni edlym bywiog anadlant
 Anadl i anian yn ei hadloniant ;
 Y neint, o wallus nwyon, wyntylliant,
 A hwyr a bore, yr awyr burant ;
 Y rhingyll-wyntoedd a groch gyhoeddant,
 Fod y gwanwyn, a'i fyd o ogoniant,
 Yma yn neshau, ym monwes ieuant ;
 Hwnt o or-dafu natur o'i diflant,
 Oes y gwyrdd-ddail i mewn osgorddant,
 Oes o hedd i'r llysiâu wahoddant,
 Oes o bwysi hysbysant,—yn bybyr,
 Siriol, a difyr,—oes yr ail-dyfiant.

*Ar luniau yn y gwynnt, megis teithiwr ar
 draed, a'r gwynnt i'w wyneb.*

Dacw'r hutyn dyn ar daith
 A'i amwisg ar fynd ymaith,
 Yn ei gôb fawr yn gwibio
 Drwy'r ffyrdd, â'i odre ar ffo ;
 Mewn llawn dynn, mae un llaw'n dal
 Ar ei het, er ei hatal,
 Rhag, odid fawr, y gedy
 Ei ael frwd, i'r awel fry.

Llong yn "gorwedd wrthi."

Dacw y llong o'r doc ollyngwyd,
 Yn "gorwedd wrthi," mewn lli llwyd ;
 Hi aeth lom a noeth-lymun,
 Yn nwydd moel, heb hwyl, ddim un ;—
 Hwylbrennau, llathau lleithion,
 Ac ambell raff brass, ger bron ;
 Dyna'i threc dan noeth ddrycin
 Ym murmur blwng môr mawr blin.

Y goedwig dan bwys gwynt.

Dacw'r goedwig lom-frigog,
 Lle yn fuan y cân côg,
 Drwyddi'n clecian gan y gwynt,
 Yn gorwedd dan y gyrrwynt ;
 Y crin-wydd mân yn cronni,
 Tua'r llwyn, gwter y li ;
 Er hyn i gyd, mae'r hen gainc
 Yn gref o flagur ifainc ;
 Argoel mawr fod gwawr dydd gwell,
 Yn hapus, heb fod nepell.

Yr arddwr pylgryf.

Yr arddwr ar dalar deg,
 Ni ystyr wynt neu osteg ;
 Ei fryd maith yw gwaith y gŵys,
 O gam i gam, yn gymwys ;
 Milain yrr ymlaen ei waith,
 Gan chwiban uwch ei obaith ;
 Ei "wedd" gref gerdd yn ddi gryn,
 Yn hywaith, bob tenewyn ;
 Ni ddaw'r yntau ddewr wyntoedd,
 A'i "wedd" o'i flaen yn ddi floedd ;
 Yn unig rhag un anhap,
 'E ddeil â gèn ddol ei gap,
 I gyd gael gyda'u gilydd
 Troed a dwrn at raid y dydd.

*Y gwynt yn torri i Wanwyn tawel hinonaidd,
 y carvodydd maethlon.*

Eto nid gwynt yw'r helynt rheolaidd
 Yn y tymor hwn, ond "Taw" morwynaidd,
 Anian yn llithro'n Wanwyn llathraidd,
 I linell eurog awelon llariaidd,
 I foeth-ddylanwad cawod faethlonaidd,

I eglur wybren, a nen hionaidd,
 A dydd estynnol, meiriol tymhoniaidd;
 Ple i edrych nad yw'r haul pelydraidd
 Yn troi, yn araf, Natur yn iraidd,
 Ac yn lleshau yr egni llysiuaidd?
 Rhed o'r gwres i'r had o'r gwraidd—rym tyfu,
 Gan adnewyddu ail gnydau noddaudd.

Golygiad y bardd ar y fro o amgylch.

Af, orig, i fyfyrion,
 Gyferbyn, ar fryn o'r fro,
 Ar y wlad fawr, or-ledol,
 Mal hyn geir ymlaen ac ol;
 Syllaf ar y brys allan;
 Mae byw a mynd ym mhob man.

Yr Amaethwr a'i lafar.

Yma a thraw amaethwyr rhydd—welaf,
 O oleu bwygilydd;
 Cymhwysant acw i'w meusydd
 Hadau da ar hyd y dydd.

Yr ôg dlanheddog enhudda—yr had,
 Yr hwn sydd at fara;
 Hin nawsaidd a'i cynhesa
 I gwnw i'r o egin da.

*Y llongwr a'i anturiaethau, llongwriaeth. y
 môr yn agor i drafnidiaeth.*

Y llongau hwythau weithion,
 Ant i'w dawns ar hynt y don;
 Trwy wynt, oll troant allan,
 O bob modd, ac am bob man:
 Ac wele rhed clo yr iâ
 Oddi ar y moroedd eira;
 Bala bydd, o bawl i bawl,
 Holl-foriog a llifeiriawl.

Llongwriaeth ry' i law yngoror
 Pob llynn o faint, pob llain o fôr ;
 A'i dwrn gwlyb hi dery'n glau
 Wrth ddrws aur ei thrysorau ;
 Y tunelli tynn allan,
 Buan rhydd bawb yn eu rhan.

Pob llong â'i thrum dan luman—gan awel
 A gyriwair allan ;
 A'i mentyll yn ymwyntian,
 Hi fydd i'w, o fan i fan.

Gyd â ffrwst a thrwst a thrin,
 Rhai llywiant i'r gorllewin ;
 Rhed yn wych i'r de y naill,
 I'r dwyrain y rhed eraill ;
 Rhai i'r tuedd gogleddol,
 Is rhin pwynt Seren y Pôl.

Y myfyr a ymosyn,
 A da i hawl,—Beth ydyw hyn ?
 Trefn yw dweyd,—Trafnid ydyw,
 Y ddawn fawr i ddyn i fyw.

Daeth tymor agor eigion,
 Pryd tramwy maith daith y donn ;
 Daeth dydd i bob llong hongian
 Ffimen bert ei phennwn ban ;
 Gwynt i'w nawf dan gant y nen,
 Ar ei hwyliau, gwawr haulwen ;
 Dyna fydd yn nofiadwy
 I bebyll môr, bob lle mwy ;
 A'u helw ddaw'n hael i ddyn
 Yn fael—eiddo Y FLWYDDYN.

Y llwyni a'r adar.

Awen swyn ! gad yna fôr,
 A thyred tu a'th oror ;

Trwy y llwyni, twyni teg,
 Ymrodia,—dyma'r adeg
 Nodi hoen, a gwranddo ar
 Ddrydwst nwyf-gerddi'r adar ;
 Pawb â'i gymar yn barau
 O wedd deg, yn ddau a dau,
 Yn llygadlon gynffonni
 Yn y llwyn, ym min y lli ;
 Miwsig masw a leinw lwyn
 O'u gyddfau pluog addfwyn.
 Pob pig fel pib a chwiban,
 Ac o frig îr, cwafria gân ;
 Pob pig drwy'r wig draw ar waith
 Yn crynnu cainc ar unwaith ;
 Pob pig ei miwsig moesa,
 Pob siol a phig, pib sol ffâ.

Rhagor sy rhwng rhywogaeth,
 Rhagor maint, a rhagor maeth,
 Rhagor llun, a rhagor lliw,
 Rhai'n or-las, rhai yn eurliw ;
 Rhagor llais, rhai gwâr a lleddf,
 Yn eu cân, dyna'u cynneddf ;
 A rhai llon yn chware'u llais
 Sain-eglur, nes ein hoglais ;
 Amrywia eu mir awen
 Heb un bwlch o ben i ben,
 O'r gryglyd wich i'r greglais,
 O wâr lef i'r eryr lais ;
 O'r dawn wng i'r dôn angel,
 O'r sian main i'r swn mêl.

O! 'r ehedydd fydd mor falch
 O'i fywyd ef, a'r fwyalch ;
 A'r fronfraith fwria'i hunfryd
 Ar y gân yn awr i gyd ;

Y gwanwyn ddwg y wennol
 A'i thelyn a'i theulu'n ol
 O dir sy 'mhell dros y môr
 I Frydain wen yn frodor,
 I wneyd nyth drwy syth yn sad,
 A'i gleio yn dynn gload,
 Na syfl oddi ar ais oflaen
 I ffwrdd fyth, mwy na phridd faen ;
 A'i hediadau'n nodedig
 I osgo'i ffordd wysg ei phig ;
 Tu a'r llawr yn troell-wyro,
 Gwna frad ednogion y fro ;
 Braidd na hed heb rydd wanhau,
 Yn saeth, i'r fonwes weithiau ;
 Ond heibio 'r a, i'w hynt bryf,—
 Dyna'i hannel, edn heinyf.

Ym mon to, ym mhen teiau,—ym mol coed,
 O ! mal y cân heidiau ;
 Nyddu y dôn, ddau a dau,
 Yn gân cariad, gainc orau.

Y deusain priodasol—chwareua'r
 Wychyr awen adarol,
 I aml swynion mil-seiniol,
 Nad wŷr un wneyd ar eu hol.

Nythu a magu megis—eu rhiaint,
 Dyna'u rheol hysbys ;
 Dyna'u greddf leddf, a di-lŷs,
 Dan foli ar dôn felys.

Ond i adar yn dodwy,—Ow ! lunio
 Galanas ofnadwy ;
 Gwae i'r plyf gan hogiau'r plwy,
 A'u chwiw drem sy'n chwai dramwy.

Blodeuog y tymor.

Ym miri cân mawr y coed,
 Emyn-gar gôr y man-goed,
 Blodeuog y teg bryd hwn
 A dau lygad olygwn ;
 Briallu, pob rhyw wullion,
 Aml wawr frith, ymyla'r fron.

O! O! 'r blodau!—un,—dau,—deg,
 Na, uwch hynny, ychwaneg ;
 Dwedwch "deg cant," ar antur,
 Na, "mil," pam? o liwiau pur ;
 Na, deng mil,—mwy, "deng miliwn,"—
 Ofer rhoi y cyfri' hwn.—
 At hyn, dyn, eto nid aeth
 I feiddio ei rifyddiaeth ;
 Ni wŷr yr hyn sy aneirif,
 Culach yw rhod y cylch rhif ;
 Dyrysa, os a dros hon,
Aneirif a'i gwna'n wirion.

Dyn gwael uwch ben y flodlen flawdlyd,
 Sïa'i ymennydd os sai' un munyd,
 Yn y gwanwyn ryw unig ennyd,
 Yn y gwastadedd, i geisio dwedyd
 Pa sawl newyddlun pwysiol, noddlyd,
 Lliwiedig, ifanc, o'r llaid a gyfyd ;
 Daear chwardd, fel gardd i gyd,—a chwardd
 nen,
 Trybelid wybren, tua'r blodeubryd.

O! dlysau, nad ail esyd
 Neb eu bath ar wyneb y byd,—
 Namyn Efe y Crewr ;
 Dyna gamp nad edwyn gŵr.

Llun eu dail a'u lliwiau'n deg,
Yn hydwf yn eu hadeg ;
Llwyr hanfod lliwiau'r enfys.
Dyfal fâth y dwyfol fys.

Aidau ar fore gwanwyn.

Byr genir borau gwanwyn,
Toriad y dydd fydd yn fwyn ;
Trwy fôn gwawr y terfyn gylch,
Awyr deg ddaw'n wrid ogylch.
Godreu cwmwl gwawrddwl gwyn,
A ddaw mal eddi melyn,
Neu amleniad melynaur
Ar daen syw, mewn rhidens aur.

Draw, draw, trwy'r nwyfre dawel,
Gwelir bannau, mannau mêl,
O gwsg dwl, yn gwisgo'u dydd,
Eurlain awyr haul newydd ;
Y boreu glas, mewn byr glog,
Eryri dry'n oreuog ;
Tyrau, dan olehiad terydd,
A llawr tre, yn lliw aur trydd.

Parhad y fodeueg.

Pa ryw arogl pêr, iraidd,
Drwy yr awelon a draidd ?
Awyr sawyr bwysiau
Ym mhob cwrr i'm bywiocau ;
Teg yr addurnwyd, bob tu,
Y llwybr oll â briallu ;
A blodau gôb y wlad gain,
Ymagora'n em gywraim ;
Wrth dlws, tlws yn ystlysu,
A bywyd twf, ar bob tu.

Pob blodyn em, ei drem draidd
 I nen anian hinonaidd ;
 A'r nen ddi len a ddeil ar
 Y wedd newydd yn naear ;

Dae'r a nen dry'n Wanwyn ;
 Try môr, yntau, er eu mwyn ;
 Yn awr yn Wanwyn a hi ;
 Doed Anian i'w dadeni ;
 Ir dir ac awyr derydd,
 A hinon dda gwanwyn ddydd,

Yr eginau.

A gwlad deg, lle gwelwyd hau,
 Yn gaenen o eginau ;

Y gôg.

Y coed yn llawn o " Gw cw,"
 O fwyn adarol fân dwrw ;
 Nen lân yn gyngan i gyd,
 A nawf awyr gan fywyd.

Y Gwanwyn yn elyn Gwendid a Henaint.

Eto, Henaint, dihoena,
 Tymor wyt a'i marwha ;
 Ti, Wanwyn, wyt i weiniaid,
 Hynod beth, yn ofn di baid ;
 Hen gwynant yn y Gwanwyn,
 Ni ddeil llawer un i'w ddwyn.

F' ewyrth a lwnc " Fawrth i ladd,"
 Mal rhyw syn englyn angladd ;
 Ac " Ebrill ing i flingo "
 Yn fwy na'i Feibl ofna fo.

Y fan nad oes elfen dw,
 Y naill hedy'n a'n lludw,
 Tra blaguro'n llon y llall,
 Neu'r erys dymor arall ;

Od yw yn ber hedyn byw,
Yn perchen elfen eilfyw.

Twf di had, (hyf y d'wedwn,)
Lladd y tir mae'r lludded hwn ;
Lle na bo cn'wyllyn bywyd,
Siga gwedd y plisg i gyd ;
A gwanwyn nerth, gwenwyn yw,
I'r llwydfoch waelwr lledfyw.

II. YR HAF.

Rhaid symud, Awen huda
Fi yn rhwydd i fewn i'r Ha ;
Nid oes fferf linell-derfyn
Im' rhwng y tymhorau hyn ;
Ha mwyn trwy Wanwyn wena,
A rhed y Gwanwyn i'r Ha ;
Felly'r Flwyddyn dynn yn deg
I'w chynnydd yn ychwaneg.

Yr haul yn Alban Hefin yn arwydd y Cranc.

Nwyfus yw Phœbus ar ffin
Hafod yr Alban Hefin ;
Fe bair des o wres yr hin
Yn Nhy Haf Alban Hefin ;
A'r gwres yn lles i'r llyisiau,
Ceir ei fudd at eu cryfhau.

Y cynhesrwydd tymhoraidd.

Cawn dywydd i'r cnwd ieuanc
Trwy fwa crwm Tref y Cranc ;
Gan ei wres fe gynhesir
Amrywiaeth hardd môr a thir ;
Cynnes gan des yw'r gain donn,
A rhywiogaidd yw'r eigion.

Cynesir y tir ; a'r toraeth
 Gwlaw ar y twf, glaiared daeth !
 Awel oer a glaiarodd,
 Yr ias drwg yn wres a drodd.

Y mân bryfaid yn heidio allan.

Daw'r pryfaid o'u llaid a'u llwch,
 Hen nawdd eu hun a'u heddwch,
 I'w Haf hynt, i ail fywbau,
 O'u lleoedd, yn bob lliwiau ;
 Haid o arlliw diweir-lan,
 Beryl glwys neu berlau glân,
 Milonos fel melynaur,
 Dymchwel y dom chwilod aur.

Y gloyn byw.

Y gloyn byw, glân ei bais,
 Oddi amgylch ddaw i ymgais
 Yn ei awyr wen, newydd,
 Neu, a'i draed ar flodau'r dydd.

Cacwn.

Cacwn â'i swm unseiniol,
 Lunia gylch ymlaen ac ol ;
 Ei bwysig gainc mewn bys coch*,
 Chwery, pan y'i carcharoch ;
 Ond gwyliwch nod ei golyn,
 Gwna wayw tost trwy gnawd dyn.

Y gwenyn.

Y gwenyn o'u ceginau—a heidiant
 Hyd y newydd flodau,
 Ar eu mêl hynt, er amlhau
 Hardd olud eu pêr ddiliau.

* Bys coch, bysedd cochion, *digitalis*.

Yr eog. y genweirio.

Nwyfus eog yn afon—yn araf
 Enweiria rhyw Walton ;
 Genweirir i dir o donn
 Llawer brithyll i'r Brython.

Y cuned toreithiog.

O'r gorifyny ar gwrr y faenol
 I fasw dwynen y llinell feisdonol,
 Wele'r ydau a'r gweiriau rhagorol
 Yn gnydau cyforiog, tonnog, taenol ;
 O dan awyriad awel dynerol :—
 Porfaoedd breision, meithion, a maethol,
 Yn tafu drwyddynt flodau ireiddiol ;
 Pob rhyw ddanteithion meillion cymbhellol
 Yn llithio dannedd y llwyth eidionol,
 O ran pêr fywyn eu rhin porfaol ;
 Ac i'w dawn â gwig a dôl,—a'r lleddf wynt,
 A byncia erddynt alaw bencerddiol.

Y tes mawr.

Chwysu a dyddfau mae dyn,
 A'i gadach sych ei gudyn ;
 Cais gysgodfan dan ryw do,
 Rhyw dŵyn i wyrw dano ;
 A'i iad frwd, ynghyd a'i fron
 Yn furum o ddyferion.
 Da yn wisg deneu, ysgawn,
 Fyddai gwé edafedd gwawn,
 Oni bai twym danbaid dês
 A wna'r gwawn yn rhy gynnes.
 Mae'n dyheu,—n myned o'i hwyl
 Ac archwaeth at bob gorchwyl ;
 Diosga hyd ei wasgod,—
 Hyd ei grys,—bai'n felys fod
 Heb un cerpyn, bretyn brau,
 Ond rhyw lain ddeutu'r lwynau.

Y cynhaeaf gwair.

Ond siarad am y bladur.
 Finia bwynt ei elfen bur,
 At aiod fawr y tymor,
 Awchus fydd, pe chwysai fôr !
 " Diau, rhaid lladd gwair," dywed
 " Rhaid lladd y gwair, myn crair cred."

Y pladurwyr.

Pladurwyr, gwŷr miniog wedd,
 Gwŷr y maes a'r grymusedd,
 Gwisgi o glun ac esgair,
 Di lûdd eu gwynt at ladd gwair,
 Ant oll yn fintai allan,
 Yn arfog, miniog, i'w man ;
 Abl a dewr o bladurwr,
 A bywiog iawn yw pob gŵr ;
 A'i fraich ef, gref a di gryn,
 Dery arfod â'r erfyn ;
 Egyr wanaf gywreiniol,
 Rhed ei ddur ar hyd y ddôl ;
 A'i bladur gaboledig,
 Glaer wawr, yn goleuo'r wig.

Adgan ar fechgyn yn ymdrochi.

Edrychwn ar ymdrochi,
 Gan fechgyn yn llynn y lli ;
 Suddant, nosiant yn nwyfus,
 Yn ddewr oll ac yn ddi rûs ;
 Ac ar ddwr, y corr o ddyn
 Ysgydwa fel pysgodyn.

Diarnod trin gwair.

Dwthwn gwair daeth i'n gŵydd—yn hyn o le,
 Gwnawn ei lun yn ebrwydd ;
 Caf weirwyr da, cyfarwydd,
 I'w drin, ac mae'r hin yn rhwydd.





PLADURWYR YN HAF.
"Egyr wantat gywrcinio,
Rhed ei ddur ar hyd y ddol."

Bloeddiadau y bobl ddodant—wynt amlwg

I'w teimlad o foddiant ;
Gau ddadwrdd a chw'rdd chw'rddant,
Dadsain llen y nen a wnant.

Un a gân, tra yn gweini,—un rŷ ffrwd

O ciriau ffraeth, digri ;
A'i ddiffin gribin grwbi,
Wrth ei hoen, ar waith â hi.

Daw rhyw herlod ar hirlam,—ymyrra

A morwyn mewn cytgam,
I dynnu chwareu dinam
Heb fryd drwg, na gwg, neu gam.

Hwy feglr ymhlith carfaglau—y gwair,

I gwymp—a bydd gawriau
Meibion y ddôl am ben y ddau,
Yn grych iawn o grechwennau.

Bras-dyrrir mewn brys diriaid,—a rhencir

Ar winciad y llygaid,
Gan lwytho, beichio'n ddibaid,
Er cludo llawer clwydaid.

Ym mhen y llwyth mae un llanc,—ar y llawr

Wele'r llall, gryf hoywlanc,
Nerth ei gefn yn porthi gwanc
A thro y llwythwr ieuanc.

Mae un dyn ym mhen y dâs,—a chwaneg

Yn gwych weini'r gadlas ;
Mae 'stwr a gwib meistr a gwas
At ardeb twt y weir-dâs.

Taranau !

Ond och ! Dacw ryw fann du—draw yn awr

Drwy y nen yn lledu,

A lliw tân yn melltennu,
A thwrw gwan, ffroch ;—rhoch a rhu.

Y tawch sydd yn tewychu,—y mae'r 'storm
A'r 'stwr yn dynesu ;
A dilyn ar fwtylu
Yw rheol y ddôl,—mae'n ddu !

Dyna hi, 'n torri ! taran—a dreigl hwnt,
A'r gwlaw sy'n pistyllian ;
Bellach ni erys neb allan,
Pawb wna i'w fwth, pob un i'w fan.

*Y buaid yn ymloddestu ar yr adladd, yn
gorwedd ac yn enoi eu cil, yn bystodi.*

Eto, pan glirio, bydd glân
Orielau awyr wiwlan,
A'u gloyw asur yn glysach
Nag erioed, mor liwgar iach ;
Nesha'r haul yn siriolach,
Nag un pryd, at ein byd bach :
Yn naear, ceir gwedd newydd,
Gwyrddlas faes, gardd-lysiau fydd ;
Adladd o radd ireiddiol,
A masw dŵf, mewn maes a dôl ;
Ei nodd a adnewyddir,
Efe a a yn fwy ir.
A buaid teg a'i bwyânt,
Hwy ddistaw ymloddestant
Ar ei frasder per puraidd
A newydd rin nodd ei wraidd ;
Iraidd fydd eu gorweddffau
Ar laswellt a pherlysiau,
Yn enoi cil, ac yn coledd
Ymarhous dymer o heddi ;

Nes daw adeg pysdodi,—ac wedyn

Codant i'w dirieidi,
Dros ffos a rhos yn rhesi
I'w hynt i'r llaid tua'r lli ;

Neu at dŵyn, am wynt dano,—a chysgod

Iach asgell y deildo,
Gan faint y gwres sy'n tesio
Drwy awyr frwd ar y fro.

Adgan ar regen yr yd.

Y rhegen yn hwyr hogi
Trwy'r nos yw ein heos ni ;
Mae ei thrwst yma a thraw,
Chwysem ped aem i'w cheisiaw :
Ei rhugl swm ar gilio sydd
I gél o fan bwygilydd ;
Diane oddiar y gwrandawydd,
Ac yn ei ben canu bydd.

Y cynhaeaf yd, yr arlwy a'r parotol ato.

Ar warthaf yr Haf, yr ŷd—addfedda

Yn wyddfodol buryd ;—
Crymanau ceir am ennyd
Yn ben ymddiddan y byd.

Ceir i'w min y crymanau,—a dwylo

Medelwyr i'w stumiau ;—
Y fedel a'i defodau
Hidla i mewn dâl am hau.

*Llawenydd yr amaethon, golwg ffreythlon y
enyddau.*

Hauwr yn awr ŵyr ei nerth,
Try i hoffi pob trasferth ;
Canys o amldra'r cynnyrch,
Ei hawl, o gae, a'i elw gyrch ;

Mwyniant ddaeth o'i amynedd,
Yd faes, am ei had, a fedd :—
Dylech ddwyn diolch i Dduw,
O! ddynton, yn ddiannuw.

Ar fin y faenol, o'r fan a fyunnir,
Yn syn ar drwchus heiniar edrychir ;
“O! feusydd gwynion!” a fawsaidd genir
Acw o'i minion, gan lanc a meinir ;
Ei wawr felen orfolir,—yn ddi ball
Heddyw, un ddiwall Flwyddyn addewir.

Cyfrifiadau hyderus yr yd-fusnachwyr.

Amaethwyr, maelwyr, ymwelant—â'r maes,
Er mwyn gwneyd cyfrifiant ;
Ac yno y damcanant
Y gwerth a'r farchnad a gânt.

Wyneb holl dir ein pellderau—meithion
Mewn amaethol barthau,
Orchuddir gan geirch a heiddiau—llawn,
glân,
A digon weithian o deg wenithau.
Duwiesaidd yw'r dywysen ;
Grym ei phwys a gryma'i phen.

Medi.

Bellach ati, i'w dorri'n hyderus ;—
Mor dda, eilchwyl, fa'i tymer ddiolchus
Yn ein dylenwi i'n Duw haelionus,
Am rad y cynnydd fu mor dyciannus ;
Am y grawn, ac nid mwg o'r us—gorwag,
Ie, grawn dinag o rin daionus.

Adgan ar oeriad tymheredd.

Ymoeri mae y tymheredd ;—nid yw
Yn dês mor gyfannedd ;

Awyr glir yn awr yw gwledd
Mircinwyr y maranedd.

Yma, deufwy mwy difyr—i fynwes,
Yw'r elfennau pybyr ;
O deneuad yr awyr
Ymburo mae wybyr a mŷr.

Y lleuad nawnos oleu.

Try y lloer fel troell arian,
Uwch byd, yn yr entrych ban ;
Yn ei chilir liw a'i chlaer led
A llun llon ei llawn lluned ;
Wyneb ei rhod wna barhau
Nes el yn naw-nos olau,
I roi i drinwyr yr fŷd
Loew flafr ei gwawl hoff hyfryd ;
Ac a'n hwy, ddydd cynhaeaf,
Na goleuddydd hirddydd haf.

Y cynnull.

Diderfyn erlyn ac arlwy,— lledu
Pob lliidiart ac adwy,
A menni trynion at dramwy
I lawr maes a welir mwy.

Prysurir, heb hir siarad,—i hylwyr
Hela pob seldremiad,
Er ydlannu'r adlenwad
Yn 'stor dlos at raid y wlad.

Y lloffa.

Namyn tywys y minteioedd—tlodion,
A'u taliadau cyhoedd
Dan ofn Duw y nefoedd ;
Eiddynt yw, a'u heiddynt oedd.

Dyledus i dylodion,—wrth ddwyfol
Raith-ddefod, yw'r lloffion ;

Addef rhaid y ddeddf fawr hon
Ym mhethau yr amaethon.

Hoen-dyrrant i'r rhandiroedd,—a synnant
Ar dwysennau floedd ;
I'w rhan dyrneidiau gannoedd
A leinw'u blys, a lonna'u bloedd.

Mae y plant yn mhob helyntion—yn swp
O sypiau y lloffion ;
Mae cefn dan faich,—braich a bron
Sy' haenfa tywys anfon.

Ar eu hol hwy, yr ail haid—ydyw'r gwyllt
A'r gwâr anifeiliaid,
A'r gwâr adar,—ehediaid
Sy' aml eu rhif, syml eu rhaid.

Adgan ar y gwenoliaid yn paratoi i ymfudo.

Ust ! tewch ! mae acw ryw 'stwr,
Ho ! gwennol a wna gynwr ;—
Beth yw'r gyfrinach ddi baid
Gynalia y gwenoliaid
Ar bennau tai, ar bwynt tŵr,
Adein-dorf fawr ei dwndwr ?—
Paratoi y maent y pryd hyn
I fudo a chwifio edyn
Trwy'r ne, o un lle i'r llall,
I diroedd rhyw wlad arall ;
O Walia gain i fol gwig,
I siffrwd trwy gyrs Affrig ;

Neu i fargod pagoda—i wrando
Gwiriondeb y Bramah ;
Yn ol eu hynt, ni leiha
Rhin eu hoender yn India.

III. YR HYDREF.

Yr haul yn Alban Elfed, yn arwydd y Fantol.

Down funud!—gadawn faenor
 A thwrw maes, a thir a môr,
 At droi ein nod tu a'r nen
 Ar hoewbryd teyrn y wybren,
 Tra'i aur gant yn troi ar gyrch
 I'r Fantol yn nhref entyrch,
 Eirian ei drych,—o'r hon dref
 Ar ddiro y rhydd Hydref
 I addfedu nodd-fwydion
 Grawn y brig ar waen a bron.

Addfediad y coed ffrwythau.

O boen ei wylfa yn Alban Elfed
 'E dry ei euraidd belydr i waered ;
 Wrth ei ddeddfau, coedd ffrwythydd addfed
 Yn eu teg olwg fyddant i'w gweled ;
 O ! y perlennydd,—pwy wŷr eu llawned ?
 Dyna gain froydd dan gnau afrifed ;
 Gwedd afal-lwyni, i'n gwadd, felyned !
 Y FLWYDDYN wych enfyn ar ei chanfed
 Yn ddoer i'n gwaith, ddibriu ged,—ffrwyth
 di drai,
 Ba fywiol osai ! na bu'i felysed.

Melyna anliw Anian—drwy y tir,
 Daw'r twf i'w lawn oedran ;
 O'i safle glwys afal glân
 A gwymp o hono'i hunan.

Sgrympiau Gwyl y Grog.

I gyfarch Sol, Æolus—a eilw
 Ei awelon grymus :

Yn nerthoedd croch a brochus
Ar wedd dreng hyrddiau di rûs.

A'r gwynt o'i glwyd, ar gant glyn—dyrr osteg,
O ddeutu'r adeg fe ddeu'ty'i edyn ;
Ysgydwa ei fraisg aden,
A'r chwa chwibana uwch ben.

Mewn troiadau mae'n trydar—hydr wyntoedd
Drwy entyrch y ddaear ;
A gwynion genllysg anwar,
Cerrig ôd yn curo gwarr.

Bydd sgrympiau, rai dyddiau 'n dod,
Dirybudd, diarwybod ;
Rhuthbro wnant o werthyr nen
Drwy ddybryd orddu wybren,
Yn eirwlaw rhydd ar ael rhiw,
Neu gymysg genllysg, gwynlliw.

Haf bach Gwyl Fihangel.

Ond ennyd yw,—a daw'n deg,
Mae haf wrid am ferr adeg.
Y TAW mwyn yn neutu mŷr,
Swyn yw ! heb si yn awyr,

Namyn si, neu'n hytrach, mân son—wybrol
Mal sibrwd angylion,
Nad wyr hil daearolion
O ble daw y barabl dôn.

Mae daear mewn amdoad—o osteg
Distaw, digynhyrriad ;
Oddigerth rhyw nerth arw nâd
Bu, ar foreu'n breferad.

Cwymp y dail.

At hyn, mae gwyrddliw y tw',
Trwy wên haul, yn troi'n welw ;

Anian yn troi yn henaidd,
 Maeth ei bron yn methu, braidd ;
 Coed yn eu hoed yn hadu,
 Y berth yn llai nag y bu ;
 Dail ar ol dail yn dilyn
 I lawr gwlad, neu i li'r glyn,
 Yn gawod trwy y gwiail,—
 Camp y dydd yw cwmp y dail.
 Ac ail i'r dail ydyw dyn,
 Fel addail mân y flwyddyn ;
 Yn addurnol am ddiwrnod,
 Pan dyf,—dyna'i gwmp yn dod ;
 A'i wrid yn troi i edwi,
 A'i ddelw hardd,—O ! ni ddeil hi.
 Ond ni pharha yr ha byr hwn,
 Hyd eithaf trideg dwthwn ;
 Gwywa y wedd ffug-ieuanc,
 Mal un trem yw ymlaen tranc.

Adgan grefyddol ar y "Cynhaef adre."

Cawn fydru cynhaef adref—yn wychr
 Yn nechreu yr hydref :—
 Mal yn awr y dyrch mawl nef
 Acw i entrych pob cantref,—
 " Pryd hau, caed priod dywydd,
 A thwf i'r had, eithaf rhydd ;
 A phob peth yn ddi seth a fu
 O duedd fad i'w addfedu ;
 Gororau'n esgor irwellt,
 O gwrr i gwrr, gwair a gwellt. .
 " Awel a gwlaw, haul a gwllith,—in' oeddynt
 Weinyddion y fendith,
 Nes dwyn yn gyflawn, rawn rith,
 I gynnyrch gwair a gwenith.

" Pwy wnaeth hyn ? Pennaeth Anian ;
 Gwledd glws wnaeth ein Harglwydd Glân ;
 I'w ofyniad elfennau
 Oedd o hyd yn ufuddhau.
 Yntau oedd yn tueddu
 Galluon teg oll o'n tu ;
 Dwyn y gwllith, denu y gwllaw,
 Gwadd haul, â'i gu ddeheulaw,
 I Gangell fawr ei Gyngor,
 Cadair o'i mewn ceid i'r môr,
 A mainc i'r tir ;—mewn cwrr teg
 Eistedd wna'r gwynt ar osteg,
 At wrandaw y fad Drindod
 Yn erchi i ddyn gynnyrch ddod.

" Cyfleai bob elfen yn ei senedd,
 A chu wrandawai ei chywrain duedd ;
 Cyd-dymherai a rhannai ei rhinwedd ;
 Hon-yma galwai i weini ymgeledd ;
 Hon-acw ataliai, seiliai ei sylwedd ;
 Fe warafunai un fyrr o fonedd ;
 Agorai llyfr trugaredd—y tymor
 I gyfri trysor ar gyfer trawsedd.

" Y ddeddf ydoedd addfedu
 Gwair yn y cwm, a grawn cu ;
 Gwneyd moelydd yn gawd melyn,
 A chnwd mawr ar glawr y glynn.

" Duw yw'r llyw, awdwr y lles,
 Anian oedd y weinyddes ;
 O'i law ddwyfol, addefir,
 Yn hael daeth toraeth y tir ;
 Wedi'r fael, Duw Ior folwn,
 A da yw hawl y Duw hwn."—

Dyna un o dannau haf,
Caneuon y cynhaeaf.

Ryrhad y dydd.

Ar ei chil, mewn gorchwyledd
Y Flwyddyn a, gwywa'i gwedd !
Tegwch y wawr gwtoga,
Hyd wddf yr hwyr, dydd fyrha.

Ddoe ddifyr yn fyrr a fu,
Heddyw'n fyrr, i ddwyn foru ;
Foru bach, yn fyrrach fydd,
Byrrach, truanach trennydd.

Prudd-der yr adar.

Mae'r adar yn fwy gwaraidd
Ger ein bron, yn bruddion, braidd ;
A'u chwiban yn gwynfan gwâr,
Mewn tyle, ym mhen talar ;
Pa olwg glaf !—eu plu clyd,
Eu swp hoewblu mor 'spyblyd.

Cyffro y drycinoedd.

Cynnull a wna'r drycinoedd
Eu holl rym, o'r man lle'r oedd
Fel yn huno'n flin, ennyd,
Ar ol gwasgar bâr trwy'r byd ;
Ymresiant i amryson
Yn ddihir, ar dir, ar donn ;
Gwae filyn, gwae ddyn, gwae dda—gwymp
i'w mysg.
I'w cau yn nherfysg eu cyniweirfa.

Adgan ar " rwyfno yr anifeiliaid."

Dyma adeg 'rhaid mudo
Y praidd i rywfan dan do ;
Oddiar fynydd i'r faenawr,
Cynnes loc yn is i lawr ;

O hafotiri fetws,
 Rhandir glyd yr hendre glws ;
 Aerwyo o'r oer awel
 Y llo a'r fuwch yn llwyr fel
 I gynnwys cymaint ag annai
 O'n buaid oll yn eu bendai ;
 A'r march dihafarch hefyd
 Yn glwm wrth ei resel glyd.

Anrhaith y gwyntoedd ar fôr a thir.

Gwynt wna helynt anaele
 A blinder mewn llawer lle ;
 Hyrddia'r llong, a chordda'r lli,
 Gwna i fôr brigwyn ferwi ;
 A gyrr o'i flaen y gref long,
 Addurnlwys hardd haiarn-long,
 Fawr, adeilgref, i'r dalgraig,
 Yn gandryll rhwng crigyll craig ;
 A mil o'i hail, ant mal hi,
 I anoddyn yn eddi.

Nid llai y tai ar y tir,
 A'r dasau, a ardysir ;
 A'r coedydd, crwca ydynt,
 Heb wisg oll, dan bwys y gwynt.

F eur-welaw, y llifogydd.

Ac wele, mwy, y gwlaw mawr
 Yn gyrru trwy ein gorawr ;
 Agenir y clogwyni
 I eigion llawr gan y lli ;
 Y gofer cul a gyfyd
 Ei ddwr bach, ar fodd i'r byd ;
 Llafara y llifeiriant
 Ei daran hir drwy y nant ;
 Ac ar fyrr, bydd yn cryfhau
 Afonydd di derfynau,

Dros y tir, mal rhodres tonn
Fai ar nawf o fôr Neifion.

Yr hin anwadal.

Wedi saib, nid oes wybod
Un dydd, pa dywydd sy'n dod ;
Ni edy hin anwadal
I goel dyn am ddim gael dal.

Tarth, niwl.

Weithiau tarth, fel rhyw garth gwyn,
Yn ei rwysg, wna oresgyn
Yr awyr, a'r holl riwiau
A harddai bur wedd y bau ;
Yna'r niwl a leinw'r nen ;
Ni welir, gan y niwlen
A fwriwyd fel cyfaredd
Dros y fro, i guddio'i gwedd,
Oddieithr rhyw fynydd uthrol,
Nad oedd yn uwch, un dydd yn ol,
Na'n meddwl, mewn un moddion,
Yn garn a braich ger ein bron,
Ond heddyw mae'i bwynt addien,
Trwy'r niwl, fel yn taro'r nen.

Chwedl y Tylwyth Teg.

Ni wiu son am hen syniad
A ga'i hwyl glew ar goel gwlad,
Mai niwl oedd, mewn ofeg,
Talaeth tai y Tylwyth Teg ;
Rhin a swyu yr hen syniant
Fu i'n plith yn ofni plant ;
Ddydd fu, meddir, clybuwyd
Eu crechwen dan y lenn lwyd ;
Hoen eu nwyf yn y niwl,
O olwg dyn halog, dwl.

IV. Y GAELF.

*Yr haul yn Alban Arthan, yn arwydd yr
Afr, y dydd byr.*

Yr haul dry i'w wely'n wan,
I werthyr Alban Arthan ;
O'r nos oer fe hwyr nesha
I fuan dreiglo 'i fwa ;
Gyd a'i fod yn dod i'w daith,
Isela i'r nos eilwaith.

Y rhew distaw.

Gad anian i gadwyni
Yr lâ mawr i'w rhwymo hi :
A'r lâ ni arbeda'r byd,
Ei iasau arno esyd ;
Ei efyn rwym afon rydd
Yn galed yn ei gilydd ;
A'r dŵr a lifai ar daen
Sy eilfydd i risialfaen ;
Aber loew, glws, yn berl glân,
Y llyn hir fel llenn arian ;
Y gwlybwr yn troi'n glöbyn,
Eilydd talp o sylwedd tynn ;
Maes yn llwm, ac ymson lli
Ystwyol, yn distewi ;
A'r awel fel yn rhewi,
Y tywydd hwn tawodd hi :
Pob annedd mewn pibonwy
O loew rew main, welir mwy ;
A gleiniau rhew, fel glân-wydr,
Bob gwedd fel rhyw bibau gwydr,
A gydiant wrth fargodion
O eirian bryd arian bron.

Adgan ar fechgyn yn ysglefrio.

Y bechgyn, er rhynn yr iâ,
 Wych rwyfant i'w chwareufa ;
 Oll yn fyw a llawn o faidd
 Ar y lithren or-lathraidd ;
 Hawdd gamp fydd llithro'n ddigur
 Ar ysglent, heb drwsogl antur,
 Fel ergyd gwefr i 'sglefrio,
 Ar frys, gryn hanner y fro.

Y noswaith loergan, a golygfa y nef serenog.

Cawn gan Sol ryw nefol nos,
 Oriau hirion, er aros
 Agor ei ddôr dde-ddwyrain
 I wthio i'n mysg ddwthwn main.

Y mac'r loer ym mro y Llew,
 Talaeth y tanbaid hoew-lew,
 Yn gron yn ei gogoniant
 Mewn asur gylch, mân ser, gant ;
 Ar hynt deg, Oreion tyrr
 Fawr wib i yrfa'r wybyr ;
 Gan ddwyn hoew a gloew "gledd,"
 Ar "wregys" eurwawr agwedd,
 Gwych yw gwawr y "Ci mawr," mât,
 Dihual yn dyheuad.

Raddau 'mlaen, ar ddim o le,
 A'u goglud ar y gwagle,
 Y chwery llu llachar, llon,
 Y Tewdws a'i atodion.

O'r eang nen, rhyngyn' nhw ;
 Terwyn lygada'r Tarw
 Ar y llachar Droell uchel,
 Loyw bur Rôd, mal heibio'r el.

Y storm eira.

Y glaer wybren disgleirbryd
 Sy'n berlau a gemau i gyd ;
 Noswaith deg, na, 'sywaeth ! dydd
 Dry wychaf i'r edrychydd ;
 Rhaid ystyr nad rhew distaw,
 Fel hyn, o ddydd i ddydd ddaw.
 Na ! dua haeniad awyr,
 Mewn cerbyd iâ, eira yrr ;
 Ac o'i oerllyd gerbyd gwyn,
 Plua y byd, bob blewyn ;
 Plu fydd drwy'u gilydd yn gwau
 Yn belydrog sâ'n bledrau,
 I'w hebrwng trwy yr wybren,
 Mal afrifaid, gannaid genn,
 Neu flawriog seflau oerion,
 Nes toi oer grwst daear gron.

Y lluwchfydd.

Ar gantau'r awyr y gwynt a rua,
 A chyfyd drycin erwin o eira ;
 Y nen yn dryfwl o'r plu, 'n un drofa ;
 Y gaenen d'w'llwch yn genn a'n dalla ;
 Ein daear farwol dan do oer fwria,
 Ein llawr meudwyol yn llwyr amdoa ;
 A min y tro-wynt, yn awr, mewn traha,
 Oddiar y llechwedd a'r rhiw, a'i lluwchia
 I ffurf anghelfydd ddi-eilfydd walfa ;
 Y fro annedwydd a fawr newidia ;
 Cladd mewn laid, ddefaid, neu dda ;—a'r heol,
 Antur amheuol, un a'i tramwya.

Y ty clyd, a'r aelwyd gynnes, a'r teulu dedwydd.

Achles tân, a chael ystôl
 Oddi mewn, fydd ddymunol ;

Tŷ ac aelwyd deg, wiwlan,
 A chwedl yn gymysg â chân ;—
 Gloewi marwor glo mirain,
 A phen ambell fawnen fain,
 A bregus flaenau briwgoed,
 Neu ddarnau boncyffiau coed,
 Noson eira, dyna dân
 Sy lon i iasol anian !

*Y tân, y gân, a'r ymgomio, a'r gweini oddi
 mewn.*

Goleuon ger bron, er bri,
 Benywaidd heibio'n hoewi,
 Yn gwnio diwyg newydd,
 Drud, a dâ, at raid y dydd ;
 Neu gellwair â'u gwiallen,
 Gwau, bob yn ail, a gwneyd gwên,
 A gweini bodd i'n gwyneb,
 A chalon iach uwchlaw neb.
 Rhynwynt tost, ar nen y tŷ
 Mal taran yn aml tery ;
 I'r drysau ar hyrddiau 'r hêd,
 I glecian pob rhyw glicied ;
 Y tŷ, yn nhreigl tonnau'r hin,
 Glecia mal rhyw glic melin ;
 Ond deil ei fur gur y gwynt,
 A'i ddorau bwys byddarwynt ;
 Cliciadau'r cloiau cedyrn
 Ni thyrn y chwa uthr a chwynn.

*Y teulu yn xcepera, yn darllen a gweddio cyn
 myned i orffwys.*

Ac o fewn, nid Gaeaf yw,
 Hâf nod Mehefin ydyw ;
 Cynnnes gongl, diddos gronglwyd,
 I burdda bobl, bwrdd a bwyd ;

Ac wedi'r swper peraidd,
 Cu nesheir, mewn cynnes aidd,
 A dodir heibio'r dadwrdd,
 I agor Beibl ar gwrr bwrdd ;
 'N ol llith a gweddi dda ddwys,
 Darffod,—a mynd i orffwys.

*Parhad yn eira ar y ddaear, gwasgfa y
 gwyllfilod a'r adar, robin goch.*

O ! yr eira ! Hir erys
 Ar y fro, ni thawdd ar frys ;
 A'r milod oer eu maelawr,
 Newyn yw arnynt yn awr ;
 Yr adar, dan eu rheidiau,
 Ynt yn 'swil i'n tai'n neshau ;
 Cais rhan o'r digyngan gôr
 Ddrws gobaith yr ysgubor,
 Am rawn, yn fân fymrynu,
 Er nerth, rhag eu llwyr wanbau ;
 A robin yn finfin fud,
 Mal mewn siom lem yn symud,
 I'n drysau picia'n dra-sionc,
 I ddrws pawb fe ddyry sponc,
 Eto'n brudd, yn un 'spruddach,
 Heb ddim miwsig o'i big bach.
 Y llwyd folwag wyllfilod,
 Gwae ni ! ni chânt ond gwyn ôd,
 Yn lle ymborth y llwm-bawr,
 Oedd er lles, cyn cuddio'r llawr.

*Estyniad y dydd yn arwyddo tymor gzeall
 gerllaw; rhug gysur am dymor oddadmeriad.*

Ond estyn deryn mae'r dydd
 O un goleu bwygilydd ;
 Argoel fod oriau Gŵyl Fair
 Ar agosi trwy gesair ;

Tywydd ir at doddi iâ,
 Tywydd er toddi eira ;
 Gan y gwres, hyd gynhesir ;
 Daw, o ddwr gwlaw, ddaear glir :
 " *Ni erys eira mis Mawrth*
Mawr na 'menyn ar dwymyn dorth,"
 Ebe'r hen air ;—a barn hyn
 Yw, y tawdd ar bob tyddyn.
 O'r newydd daw tywydd teg,
 A ddetry'r iâ'n ddiatreg ;
 Pan bydd, o dipyn i beth,
 Wyneb hapus gan bopeth ;
 Daear rwym ddaw yn dir rhydd,
 Ac i'r arddwr ceir hirddydd,
 I'w chochi ac i'w chychwyn
 O lwm ddull i ail-ymddwyn.

*Yr haul yn arwydd y Pysg, ar gyffiniau
 arwydd yr Hwrdd, lle y gorffen ei dro yn ei
 gylch, ac y dyry ail Wanwyn.*

Mae'r haul yn ymwroli—hyd ei daith
 O "dŷ" i "dŷ" 'n trosi ;
 Ei le yn awr welwn ni,
 Ym mysg y Pysg yn pesgi.
 O'r Pysg, diderfysg y daw—trwy ei rod,
 Tua'r Hwrdd i drigaw ;
 A dyna ei gylch o dan gaw,
 A'i ddeupen yn neu yn unaw.

*Crynnedd yr nod angen Anian. Y testyn
 yn "flwyddyn gron," ac o ganlyniad yr awdd
 yn awdd gron.*

Y ddau eithaf a ddaethant,
 I roi y cwlm ar y cant.
 Nes eilfydd yw ein sylfon
 I'w henw gwraidd—Blwyddyn gron.

Eben Fardd.

Crynnedd yw'r marc ar anian,
 Crwn yw y glôb, cywrain, glân ;
 Crwn ar len yr wybren rydd,
 Ei osodiad, yw'r sidydd ;
 Os cron yw'r sylfon neu'r sail,
 Cron rod ceir yn ar-adail ;
 Awdl gron yw hon, gan hynny,
 Yn fath o droell fyth a dry,
 I agos ddangos i ddyn,
 Yr aml wedd geir ym mlwyddyn.

*Ystyriaethau difrifol ar gylchyniad y flwydd-
yn.*

Y flwyddyn i ddyn a ddwg
 Sylwedd ei oes i'w olwg ;
 Herwydd hi a rydd i oes
 Ronynnol rannau einioes ;
 Hi a dry yn hyd i'r oes,
 Hi, 'r unwedd, fyrha'r einioes ;
 A'i thro, fel mewn gwrth-reol,
 Yn gwneyd, a dadwneyd yn ol.
 Rhyw olwyn yw, ar lawn waith,
 A yrr swm yr oes ymaith ;
 Seml rôd, sy mal y rhedo,
 Bwynt tranc i bawb yn eu tro.
 Hi dry fyth, hyd awr y farn,
 Luosog ddynol wasarn
 Oddiar ei chant addoer, chwyrn,
 I gwsg, yn gnawd ac esgyrn ;
 Hidla yr holl genhedloedd
 O'u hoes gylch ; ddaw, sy, ac oedd ;
 Treigla'r byd trwy glawr ei bwrdd,
 Er ei ddidor or-ddadwrdd,
 I isderau distawrwydd,
 A'u lle'n wag allan o wÿydd ;

Dyna fydd ;—a da in' fod
Oll yn bur a llawn barod.

Adgan ar y Gwyliau.

Nid yw ddrwg diweddu'r awdl,
O rhy Awen air hyawdl,
Yn fyrr, fyrr, i gyfeirio
At Wyl, gan fod Gŵyl ar go'
Byth ar Galendar glandeg,
Cytûn, pob Almanac teg.

Ym mlwyddyn Cristion, son sydd —am Wyliau
I ymhel â chrefydd ;
Dwyfolaf yw'r dihefelydd
Foelolaidd Wyl, sef y Sul Ddydd.

Nadolig noda alwad—i gynnal
Dydd geni ein Ceidwad ;
A'r Croglith, ceir llith a llad
Ar sylwedd y Croeshoeliad.

Ceir gwledd, pwysig heddy Pasg hael,—a'r Oen,
A'i rinwedd pur, diwael ;
A chofion fydd o'r Dyrchafael,
Yn ei gylch, a'r Sulgwyn, i'w gael.

Gwyliau eraill a eglurir—yn rhes,
Gan rai, ac fe'u cedwir ;—
A farno neb o'i fron yn wir,
Bid siwr o'i garn, trwy'r farn fernir.

Gwladol, rhai Gwyliau ydynt,—at amod
Pen-tymor,—a helynt
Tir a'i Hawl ;—at dwrw a hynt
Ariannol, rai ohonynt.

Ysgrif neu air, Wyl Fair fydd
Ddiogel i'r iawn ddygydd ;

Gwyl Fihangel, ei sel sai ;
 Gwyl unmodd yw'r Galanmai ;
 "Canol Haf," cawn Wyl Ifan
 Pur glws ar y papyr glân ;
 Yr Holl Saint, ŵyl arall sydd,
 Hon yw Clangaua' newydd ;
 Pen-tymor, pwynt diamwys,
 Tra bo dim mater o bwys ;
 Gwyl Nadolig lân, deilwng,
 At raid byd a chred, cyd rhwng,
 Hawlia gario'r ŵyl-goron,
 Addien grair y Fiwyddyn gron.

 MOLAWD CLYNOG.

CAWN gynnyg hyn o ganu
 I Glynog, coron Cymru,
 Sy'n llannerch deg ar fin y môr,
 Iach oror hawdd ei charu.
 Nid oes difyrrach mangre,
 Dan wenloer diau 'n unlle,
 Am a wn, na lle mwy iach,
 Na'i glanach, ond goleune.
 Rhyw olygfeydd godidog
 A geir o fryniau Clynog
 Ar wastadedd Arfon hardd,
 Fel diwael ardd flodeuog.
 Di ri' yw 'r llwyni llawnion,
 A'r meusydd eang sŵrwythlon,
 Rhwng llawer tewfrig goedwig ha,
 Ymlifa aml i afon.
 Oddiyma y golygir
 Mon gywrain, man a gerir,

Hanes hir o'r Ynys hon,
 A'i beirdd, wyr llon, ddarlennir.
 Mor glysion mae 'r eglwysydd
 Rhwng cedyrn rengau coedydd,
 Byth y sai eu clochdai clau,
 A'u pennau 'n uwch na'r pinwydd.
 Ac acw 'r llongau mawrion,
 Cywreindai, ar y wendon,
 Yn saethu rhagddynt trwy y lli,
 Gan hollti'r tonnau heilltion.
 A finnau, o Eifionnydd
 Y daethum fel ymdeithydd,
 I fyw a bod, am bennod bach,
 Hyd Glynog iach ei glennydd.

Y GWANWYN.

MAE ael Anian yn ymlonni—mae'n brain
 Mewn brys am ddeori,
 Mae ein hadar yn mwyn nodi
 Miwsig y nef, yn ein mysg ni.
 Mae ein gwanwyn yn min geni—y myrdd
 Myrddiwn math o dlynsni ;
 Mor wyrdd, lân, mor hardd eleni,
 Mae tir a môr i'm trem i.
 Main laswellt mynn ail oesi—man lle bu
 Mewn lliw balch yn codi ;
 Mae allan drefn meillion di ri'
 Mae ail olwg am y lili.
 Mae'r eigion yn ymrywiogi—mae'r donn
 Mor deneu'n ymlenwi ;
 Moddion tyner !—meddant ini,—
 " Mae yn y Nef Un mwy na ni."

YMWELIAD A LLANGYBI,

Yn Medi 23, 1854.

LLANGYBI!—Os wyf fi fardd,
 Pa ehud!—pwy a wahardd
 Un awdl fer, o anadl 'foes,
 Un annerch, brydnawn einioes,
 I ti, fy Llangybi gu,
 Fan o'i gwrr wyf yn garu?
 Hoff o Fon oedd Goronwy,
 Tydi a garaf fi yn fwy;
 Yn dynn ar dy derfyn di
 Ynganaf gael fy ngeni;
 Mae bendith fy mabandod
 Yn wir ar dy dir yn dod.

Hiraeth heddyw yw'r arwr
 Egyr y gân o gwrr i gwrr;
 Y fynwent a'i beddfeini
 Yn flaenaf, fyfyrïaf fi;
 Y mae rhan o'm rhieni
 O fewn ei swrth fynwes hi;
 Deil eu llwch, nes y dêl llaw
 Duw Anian i'w dihunaw.

Isaac Morys gymerwyd
 I gwrr ei llawr a'i gro llwyd;
 Ni eithrwyd yr hen Athro,
 Yn anad 'r un, yn ei dro.

Dyna fedd Dewi Wyn a fu—ben bardd,
 Heb neb uwch, yng Nghymru;
 Ond ple mae adsain cain, cu,
 Tinc enaid Dewi'n canu?

Mae degau o'm cymdogion,
 A'u tai yn y fynwent hon;





TYWYSENAU'R HYDREF.

"Duwiesaidd yw'r dywysen,
Grym ei phwys a gryma'i phen."

A mi'n ieuanc, mwynkeais,
 Ag aidd llon, eu gwedd a'u llais ;
 Ond O ! y modd ! dyma hwy
 Isod, ar dde ac aswy,
 Yn fudion lwch-hanfodau,
 A neb o'i hfin yn bywhau.
 Codwch ! codwch ! lwch di lun,
 Gwyntiwch, o'ch tawel gyntun,
 Echwynwch un fach einioes,
 Neu ddarn o ryw newydd oes,
 I siarad hen amserau
 Gyda'ch gilydd, ddydd neu ddau ;
 Buoch bobl, a baich y hyd
 Ar eich gwarrau uwch gweryd ;
 O ! mor chwai, pan delai dydd
 A'ch galwad at eich gilydd,
 Fel hyn, gryn fil o honoch,
 Y gwnaech lawen grechwen groch ;
 Gan amerch, yn gynhennid,
 Y naill y llall, heb un lliw llid :
 Torrech trwy holl faterion
 Hyn o blwy, yn wyneb lon ;
 Dilynai eich dylanwad
 Trwy fywiog lu tref a gwlad ;
 Lloer eich dawn, fel llewyrch dydd
 Hwyliai'r genedl ar gynnydd.

Ond wele'n awr, delw neb
 Ni ymwâna i'm wyneb ;
 Heddyw'n dlawd—ddienaid lu,
 Mae'ch olion yn ymchwalu,
 Yn llwch, o un bedd i'r llall,
 Andwyol, heb un deall ;
 Ebrwydd y llun, yn bridd llwyd,
 I afterwch faluriwyd.

Eben Fardd.

O mae'n dost i'm henaid i,
 Raianach sal, arnoch sylwi ;
 Ddof dorf !—mor ymddifad y'ch
 O'r ganwyll fu'n hir gennyh !
 Y meddwl a'i ymwyddiant
 Ymaith ffodd, a chiliodd chwant.

Cysgwch ! cysgwch ! lwch y wlad !
 Hyd foreu yr adferiad ;
 Eich Duw yn unig a'ch deall
 Yn y llawr llwch, y naill a'r llall.

Af i'r Llan, fan o fonedd,
 Hyd yr hen Lan,—hi dry'n wledd ;
 Cofion ar gofion gyfyd
 O lwybrau mêl boreu myd.
 Ah ! dyma'r Fedyddfa deg,
 Man bedydd, 'min bo'i adeg ;
 Er ystod faith cristiwyd fi
 Yn nawdd hon, newydd eni ;
 Duw i fy rhan ! â'i dwfr rhydd
 Fe'm mwydwyd yn fy medydd ;
 Boed da y ffawd, bedydd ffydd
 Fo y ddefawd, fyw Ddofydd.
 Bedydd ffydd, boed da y ffawd,
 Fyw Ddofydd, fo y ddefawd.

Roberts, beriglor hybarch,
 Y mwyn wr, mae yn ei arch ;
 Urddasai'r Llan ar Ddywsul,
 Am hir dalm, gyd â'i Salm Sul ;
 Lle seiniai'r holl Wasanaeth
 Yn dawdd ffrwd o weddi ffraeth ;
 Pan i'w bulpud symudai,
 Ar ol Pader ferr, ddi fai,
 O'i ben y gangen gyngor
 Ddeuai i'dwf yn ddi dorr ;

A llais llym, da'i rym, di rus,
 Seiniau eiriau soniarus ;
 A'i ddygiad yn fon'ddigaidd,
 A iach o bryd, uwch ei braidd ;
 O'r hen ddull ei rinwedd oedd,
 Caredig mewn cur ydoedd ;
 Da i'r tlawd, er atal loes,
 A diddanu dydd einioes ;
 Eto gwyllt,—nid at y gwan,
 Wr gonest, rhywiog anian.
 Ond at y gweilch beilch, di bwyll,
 Na ddywedent yn ddidwyll ;
 Ymawyddai am heddwch ;
 Ni haeddai lai,—hedd i'w lwch.

Trof yn awr, trwy y fan hon,
 Hyd y grisiau lled-groesion,
 Ar osgo, i le'r Ysgol,
 Oedd fwy o nwyf, ddydd fu'n ol,
 Sef llofft y Llan, man mwyniant,
 Ddesgiau'r plwyf at ddysgu'r plant.
 O ! dyma olygfa lwys
 Ar waglofft brudd yr eglwys ;
 Nid oes twrw !—hun distawrwydd
 Dwng yma'i le, ers tri deng mlwydd ;
 Mae hynny'n oes, fel mewn un awr,—
 Fel dim ! onid dim yw'r tymawr !
 Onid dim, dim ond dameg,
 Yw ein hynt oll i henaint teg.

Estyll y lleoedd eistedd
 Ynt o'r un waith, eto'r un wedd,
 Lle gallwyd, â llaw-gyllell,
 Gwneyd bwlch, neu gnoad, o bell,
 A tharo brath i ryw bren,
 Neu ysu twll mewn ystyllen,

Gan hogiau go anhygar,
 Taeog o wedd, tew eu gwarr;
 Pery'r hen graith i faith fyw,
 A'i naddiad yr un heddyw;
 Ond yr awdwyr o'r direidi,
 Neu ddim o'u nod, ni wyddom ni.
 Tonn ar ol tonn a'u taenodd,
 Pwy ŵyr eu rhan, na'u man, na'u modd?

Dyma faine, a chaine ar ei chwrr,
 O! 'r dyndod mawr ei dwndwr
 Hyd-ddi gynt ydoedd dda'i gwedd,
 Yn gostwng, codi, ac eistedd;
 A throi llyfr, a tharo llaw,
 Cynllwyn o bobtu'r canllaw,
 Yn gu, rosynog, res anwyl,
 Yn gariad i gyd, mewn gwrid gwyl.
 Yr un fath yw yr hen faine,
 Lle safai'r lluaws ifaine;
 Ond, O Dduw ne'! p'le, p'le mae'r plant
 Heinif, hoewon, yna fuant?
 Trosglwyddwyd yr ysgolyddion
 Fu yn eu cylch ar y faine hon,
 I lawer math o leoedd
 O dreigl chwyrn, dirgel a choedd;
 Un i'w le yn yr hen wlad,
 Trofa ei hen gartrefiad;
 Rhyw bell fangre yw lle'r llall,
 Wyneb dŵr,—neu y byd arall!
 Rhyw gwm sy'n rhy drwm i'w dramwy,
 Am obaith mainc yma byth mwy.

Dyma fi, Langybi gu,
 A f'annerch yn terfynu,
 Bellach, mae'm gwyneb allan
 O wynt y lle, fynwent a Llan;

Mae tynged yn mud hongian,
 Gan ysgog at Glynog lan ;
 Hi ddengys,—pwy faidd wingo ?
 A brwd frys, y briod fro ;
 Cyfeiria'i bys cyfarwydd
 I greu i'm rhan awgrym rhwydd
 Mai Clynog, i'm cu lonni,
 Ar fin mor, yw'r fan i mi.

EIFIONNYDD.

EIFIONNYDD, Eifionnydd, fy anwyl Eifion-
 nydd,
 Eifionnydd, Eifionnydd ar gynnydd yw'r gân ;
 Er gwyched yw bronnydd goludog y gwledydd,
 Yng nghoedydd Eifionnydd mae f' anian.

Hen finion Eifionnydd a luniant lawenydd
 O galon bwygilydd, o fynydd i fôr ;
 Mi gara 'i magwrydd, a'i llynau dŵr llonydd,
 Ei choedydd a'i dolydd hyd elor.

Mae bendith mabandod fel gwllith oddiuchod
 Yn disgyn yn gawod ar geudod dy gŵys ;
 Hen, iraidd, gynarol, fro awen foreuol,
 Dewisol briodol baradwys.

Draw, copa Carn Bentyrch, dan wyntoedd yr
 entrych,
 Rydd achles i'w llennyrech, a chynnyrch ei
 choed ;
 Cysgododd yn ffyddlon oludog waelodion
 Hen Eifion a'i meibion o'u maboed.

Llangybi, llwyn gwiber pob llondeb a llawnder,
 Islaw ar ei chyfer, heb chwerwder a chwardd ;
 Bro llawn o berlleni, a gwyrddion ei gerddi,
 Heb ynddi i 'mhoeni ddim anhardd.

Islaw tew gaeadfrig y Gadair a'r goedwig,
 Tardd ffynnon foneddig, nodedig, a da ;
 Daw iechyd diochain, er culed eu celain,
 I'r truain ar ddamwain ddaw yma.

Rhandiroedd Llanarmon a welir yn wiwlon,
 Mor siriol a Saron, yn minion y môr ;
 Di anair ei dynion, naturiol, nid taerion,
 Ond haelion, drwy gyrion eu goror.

Hyd Chwilog dychwelir, man glwysdeg mewn
 glasdir,
 Ddyfradwy hardd frodir, a gerir yn gu ;
 Ac yma'n ddigamwedd, Sion Wyn sy'n ei annedd,
 Tangnefedd diwaeledd i'w deulu.

Sion Wyn o Eifionnydd, fy anwyl Eifionnydd,
 Sion Wyn o Eifionnydd sy'n gelfydd ei gân ;
 Gwir Awen a grewyd, a Miwsig gymhwyswyd,
 Gyd-blethwyd, hwy unwyd a'i anian.

O Chwilog iach olau, bro anwyl a'i bryniau,
 Yn llon at Llanllynau a glannau y gwllith,
 Rhown dreimiad diatreg a chenir ychwaneg,
 Ychwaneg i fwyndeg fro'r fendith.

Gwlad bêr Llanystumdwy, oludog, fawladwy,
 Erioed cymeradwy, clodadwy, clyd yw ;
 Ireiddiawl fro addien, pau rywiog pêr awen,
 Nid amgen gardd Eden,—gwerdd ydyw.

Gwel glogwyn pinaglawg hen Griccieth gastell-
 awg,
 Uwch annwsu trochioniawg, ardderchog ei
 ddull,
 Uwch agwrdd grych eigion a'i lidiawg waelod-
 ion,
 Mor dirion i feirddion ei fawr-ddull.

Hyd Dreflys a'r Ynys fy nhuedd a nhywys,
 Tremadawg ymddengys yn drefnus ar draeth,
 Goleidiawg waelodion, lle treiglai y wendon,
 Yn feillion tra hylon, tir helaeth.

Ar fynwes Eifionnydd, fy anwyl Eifionnydd,
 Y magwyd ein Dafydd,* dieilfydd ei ddawn ;
 Mae'r Bardd Du† 'n ymlonni oherwydd ei eni
 Rhwng llwyni a deri 'r fro diriawn.

Fy anwyl Eifionnydd, bwriadai yn brydydd
 Ei Phedr‡ sy mor gelfydd ei gywydd a'i gân.
 Ac Elis§ o'i goledd, rhad awen o'r diwedd
 Droï 'n sylwedd o unwedd a'i anian.

Planhigyn o ganol Eifionnydd wiw faenol,
 Yw Morys|| awenol, farddonol ei ddawn ;
 Paradwys y prydydd yw f' anwyl Eifionnydd,
 Bro lonydd llawenydd, lle uniawn.

Clau wrandaw !—clyw'r wendon yn siaw yn gyson
 Hyd lenydd gwyrddleision bro Eifion bêr hardd,
 Wrth weld ei wrth-gysgod ar Gantref y Gwaelod,
 Myfyrdod sy'n gorlod y gwirfardd.

* Dewi Wyn.

† Robert Ab Gwilym Dafu.

‡ Pedr Fardd.

§ Ellis Owen, Cefn y Meusydd.

|| Nicander.

MARWNAD JOHN ELIAS.

WYLWYR Sion! Beth yw'r cynnwrf?

Beth yw'r rhedeg yma a thraw

O dŵr i dŵr ar fur y Ddinas?

Pa ryw berygl sydd gerllaw?

Pam yr ydych yn amneidio,

Yn edrych mor gyffrous i gyd;

A oes ymgyrch o byrth uffern,

Neu ryw newydd boen o'r byd?

Nac oes, Sion! Na frawycha,

Ddinas deg y Brenin mawr—

Amlyga'r gwylwyr iti'r gofid,

Yr hwn a'u gwnaeth mor brudd yn awr;

Nid pyrth uffern gymaint ofnwn,

Gwyddom na orchfygant hwy,

Ein Dinas sydd ar Graig yr Oesoedd,

Pwy a chwâl ei meini mwy?

Un o'r gwylwyr heddyw gwympodd,

Hyn a'n gwnaeth ni oll mor drist,

Un o'r tywysogion syrthiodd,

Hen filwr da i Iesu Grist;

Angau gafodd le manteisiol

I ergydio at ei fron,

Mae'r tŵr heb neb yn sefyll arno,

Fel cysgod angau yr awr hon.

Sion! gwel ei gawell saethau,

Edrych ar ei fwa dur;

A'i darian hefyd wedi ei gosod

Yn esgeulus ar y mŵr;

Pwy o honom sydd ddigonol

I drin ei arfau yn ei le?

Pwy mor ffraeth i gynnyg cymod

I'r gelynyion âg efe?

Ar hyn Sion a edrychodd
 Yn ofidus ar y mŵr ;
 A chraff sylwodd ar y gwylwyr
 Gyda chalon lawn o gur ;
 Troes ei golwg yn naturiol,
 I'r lle safai ei phrif gawr,
 Sef Elias fywiog, nerthol,—
 Canfu yno'r rhwygiad mawr.

Ar amrantiad gwaedda'r Ddinas,
 Ar lewygu gan y braw,
 Nes i adsain ei hochenaid
 Dreiddio trwy y byd gerl aw,—
 “ O Elias efengylaidd,
 A fachludodd haul dy oes ?
 Pwy mor hyawdl bellach draetha
 Yr ymadrodd am y groes ?”

Ciliais draw i un o'r tyrau
 Pellaf oll o boenau'r byd ;
 Tŵr sancteiddrwydd a gwir gariad,
 Lle mae nefol hedd o hyd :
 Yno gwylwr sobr, unigol,
 A eisteddai ar y mur,
 Gan ddwys ddatgan wrtho'i hunan,
 Rinwedd ein Elias bur.

Minnau'n ddirgel er mwyn clywed
 Ymsefydlais ar y tŵr ;
 Ysgrifennais ei gofnodau—
 Yma canlyn geiriau'r gŵr,—
 “ O fy mrawd, fy mrawd Elias !
 Ei fwa ef arhodd yn gryf
 Nes ei alw gan ei Frenin
 O'i ymdrechfa lew a hyf.

" Llawer brwydyr boeth ymladdodd
 Oddiar furiau'r ddinas hon,
 Bu byddinoedd halogedig
 Y byd yn crynnu ger ei fron ;
 Pwy o'i fath am drin y cleddyf,
 Sydd yn clwyfo ac iachau ?
 Calon llawer gelyn Iesu,
 Wrth ei lef fu'n meddalhau.

" O na allwn ei ddarlunio
 I feddyliau'r oes a ddêl ;
 A dysgrifio'i araithyddiaeth,
 A ddiferai fel dil mêl ;
 Ni effeithiai presenoldeb
 Torf o ddysgedigion byw
 Un gwanhad ar ei ewynau,
 Ei nerth a wyddai yn llaw Duw.

" Pan esgynnai i'r areithfa
 Tawai myrddiwn ger ei fron ;
 Ei ddistaw wên wnai greu teimladau,
 Nad hawdd eu traethu y waith hon ;
 Edrychai, dro—yn sud, o amgylch
 Ar y lliaws fai gerllaw,
 Ei lygad saethai'r fath ddylanwad
 Nes rhoddi'r dyrfa yn ei law.

" Dywedai'r gair—tynerai Anian !
 Gostyngai'i law—ac wylai myrdd ;
 Pan wgai'n wrol,—beilchion grynnent,
 Arswydai'r coegddyn ffol ei ffyrdd :
 Ei law dyrchafai—bloedd gorfoledd
 A ddadseiniai drwy y llu,
 Roedd hyd yn oed ei atal-dwedyd,
 Yn gyfwng o hyawdledd cu.

" Pan fai rhês o feddyl-ddrychau
 Yn llenwi 'i enaid eang, mawr ;
 A throellau iaith yn rhy ddiffygiol,
 I gyfleu y rhain ar lawr ;
 Estynnai'i fraich—dyrchafai'i olwg,
 Crynhoai ei wefusau per,—
 A'i ddull roi fawredd ar bob meddwl
 Uwchlaw un iaith o dan y ser.

" Gwir mai gŵr o Gymru ydoedd,
 Ni chyfrifir Cymru'n fawr ;
 Eto ymgystadled Athen,
 Os myn, gyda ni yn awr ;
 Nid oedd Crist yn Araith Athen
 Rhyw blisgyn ydoedd, tlŵs a choeg,
 Elias Cymru'n traethu am Iesu,
 Gwilyddia holl areithiau Groeg.

" Fe allai'r eiddigedda Rhufain,
 Yn y gystadleuaeth hon,
 Ei bareithiwr ddyry hithau,
 Yn y clorian ger ein bron ;
 Pwyser Araith Groeg a Rhufain,
 Ni cheir ynddi unrhyw foes
 Dâl ei ddangos wrth Elias
 Yn areithio gwaed y groes.

" Pam yr enwaf Gymru fechan ?
 Maes ei lafur oedd y byd !
 Gwnaeth gymwynas i'r holl ddaear
 Trwy ei ddawn a'i frawdol fryd :
 Dweded rhyw negesydd cyflym,
 Ei farw yn Americ draw,
 Bydd llawer mintai fawr yn wylo,
 Cwyn a galar ar bob llaw.

“ Duon gyn’lleidfaoedd Affric
 A edrychant oll yn brudd,
 Am na chwery dawn Elias
 Mwy i wneuthur iddynt fudd :
 Hed ochenaid am brif golofn
 Achos Iesu ar y llawr,
 Draw hyd lethrau’r Himalaya,
 Ac-hyd lannau’r Ganges fawr.

“ Ynysoedd trafflith Môr y Deau,
 Mae’ch dadleuwr yn y bedd !
 Hawliodd rym ei holl sfracthineb
 I chwi gael cenadwri hedd :
 Gwisged Cymdeithasau Prydain
 Alarwisgoedd oll yn awr,
 Mae eu pen areithiwr cywrain
 Yn sud a llonydd yn y llawr.

“ Trefnyddion Cymru ocheneidiant
 Am y sant a aeth o’u pli h,
 Yn eu cyfarfodydd pennaf
 Teimlant heb eu brawd yn chwith :
 Pwy fel ef mewn Cymdeithasfa
 A ddwg sylw’r dyrfa’i gyd,
 Trwy rin ei bêr hyawdledd nesol
 Nes cadwyno eu holl fryd ?

“ Nid trwy swyn doethineb ddynol
 Ond hyawdledd pêr y groes,
 A thafod wedi ei ysbrydoli,
 Y rhagorodd yn ei oes ;
 Corff ac enaid esengylwr
 A dderbyniodd gan ei Dduw ;
 Meddwl eang, gwreiddiol, eglur ;
 Genau sfraceth i’w ddwyn i’n clyw.

“ Porthai'r praidd â phob danteithion,
 Seigiau breision o fwyd cryf
 Barotoai'n iach a maethlon,
 Heb un cyfeiliornad hyf ;
 A llaeth y gair meithrinai'r gweiniaid
 At fesur oed cyflawnder Crist,
 Gan gyfaddasu'r bwyd ysbrydol
 At archwaeth gwael y baban trist.

“ Ei ddawn cyrhaeddgar a ymaflai
 Yn holl gyngor rhyfedd Duw,
 Eglurai y ddarpariaeth ddwyfol
 Wnaed at achub dynol ryw ;
 O'r cyfamod cryf trag'wyddol
 Hyd ogoneddiad Crist a'i had,
 Hysbysodd bob gor'chwyliaeth rasol
 Yn nhrefn iachawdwriaeth rad.

“ Pan fai'r Eglwys mewn rhyw syrthni
 Yn nghysgodau'r hwyr yn brudd ;
 Elias godai'i law i'r Nefoedd,
 Yn y fan fe wawriai'r dydd :
 Ar ben Carmel yr amheuan
 Ymresymai'r tân i lawr ;
 Baal na Jezebel ni ddalient
 Y tanbaid bresenoldeb mawr.

“ Pan gyffyrddai o'r areithle
 A llynynau calon dyn,
 Teimlid rywfodd fyw neu farw
 Fel wrth air ei enau 'nglŷn ;
 Pelydrai llewyrch pur, angylaidd,
 Fel cylech a choron am ei ben,
 'R oedd ol y marwor ar ei wesus,
 O'r allor bur tu draw i'r llen.

“ Ffarwel Elias ! hyd y bore,
 Pan yr adgyfodi'n fyw ;
 Os gadewaist di y gwersyll
 Cawn eto'r golofn dân a Duw ;
 Fel hyn gobeithiwn dy gyfarfod
 Yn y nefol Ganan gu ;
 Ac adnewyddu'n fil anwylach
 Yr hen gyfeillach yma fu.

ANNERCH I'R PARCH. J. JONES, TALYSARN,

Ar farwolaeth ei eneth, yn 14 oed, Hydref, 1845.

FRAWD! Cofiwch, bu Dafydd a'i blentyn ar
 dranc,

A phrofwydd ei gresfydd trwy angau ei lanc ;
 A Dafydd ymolchodd a chododd drachefn,
 Ei Dduw a addolodd pan drodd yn ei drefn.

Beth meddwch, frawd, eilwaith am Job yn y pant,
 Ac angau ar unwaith yn llyncu'r holl blant ?
 “ Yr Arglwydd ” dywedai “ a roddodd am dro,
 Yr Arglwydd ddug ymaith, bendigaid a fo.”

Ni chollodd eich geneth wrth basio y ser,
 Mae'n byw yn ei phalas yn ninas ei Ner ;
 Yr Hanfod lwys dynyr a fuoch chwi'n drin,
 Rhyw seraff a'i cymer yn awr ar ei lin.

Mae'r meddwl bach cymysg, y bu arnoch boen
 I roi iddo addysg am rinwedd yr Oen,
 Yn awr o ryw argraff mwy disglaer na dydd
 Yn tafn, braidd, Seraff neu Gerub dan gudd.

Pan gaiff ei chorff cryno heb arno ol bedd,
 I undeb a'i henaidd, bydd gannaid ei gwedd ;
 Ill dau ewch i'r awyr, eich geneth ni'ch gâd,
 Ond geilw'n ddiwewyr, — “ Fy Nhad ! O ! fy
 Nhad ! ”

FY MHLANT,

Yn Mehefin 23ain, 1855.

Elin yng Nghaernarfon ar neges,—ei chwaer Elizabeth yn ei lle yn y Bont,—James Ebenezer gartref ;—a'u hanwyl chwaer Catherine newydd ei chladdu.

MAE un wrth Gei Caerseiont ;—
 Un yn y bedd ;—un yn y Bont ;
 Dim ond un gartre, lle bu'r lleill,
 Naturiol frawd y plant ereill :
 Hwnnw a'i fam heno a fydd
 I'w gweled gyd â'u gilydd.
 Deuddeng mlynedd ryfedd rifais
 I gael ger bron yn llon eu llais,
 Bedwar o blant i'w bwydo
 Yn fwyn o hyd dan fy nho ;
 Dedwyddol i dad oeddynt,
 Pan yn chware gartre gynt.
 Ni welaf y rhain eilwaith
 Yma yn wir, am un waith,
 Yn galw oll gyd â'u gilydd
 " Mam !" neu " dad !" mwy am un dydd ;
 Dychwelodd Duw i'w chwalu ;
 Cyfran f'oes fydd cofio'r hyn fu.
 Iesu'n nawdd i'r rhai sy'n ol !
 Dedwydd fo'm, er ein didol ;
 Yr un waedd fawr yn weddi fo,
 A'r un Duw a'n gwrandawo ;
 Er crwydro, suddo is â'r,
 Cymysgu, ac ymwasgar,
 Undeb tragwyddoldeb ddaw,
 Anwahanol i'n hunaw.

BRWYDR MAES BOSWORTH.


Gair at yr Awen.

(S) AWEN, bydd imi'n borth,
 Am hysbysion Maes Bosworth.
 Maes cân yw ym mysg cenedl
 Y Cymry, a chwery'i chwedl
 Yn awyr pob oes newydd,
 A ddel, hyd yr olaf ddydd.
 Ym Mosworth caed gormeswr,
 Dyn i ddiawl, a'i ben dan ddŵr ;
 Yn Bosworth y bu asio
 Darnau brad, er unaw bro
 A dreisiasid dros oesau,
 Trwy nwydog wŷn teyrniaid gau,
 Asgennol oresgynwyr,
 Yn lladd eu gwell, eiddig wyr ;
 Bosworth a wyntiai beiswyn
 Ach gyrrith, o'n gwenith gwyn ;
 Us gwlad, a'i gwael asglodion,
 Fwriwyd draw yn y frwydr hon ;
 Neshai Blaguryn i'n sedd,
 O rawn hen ein brenhinedd,—
 Rhuddin oedd o wreiddyn iach,
 N d olynwr di linach.

*Rhagoriaeth brwydr Bosworth ar frwydrau
dinod.*

Na hidlwn drwy ein hawdlau
 Laeth afiach ymgeintach gau ;
 Drud hawliau brwydrau teilwng,
 I'w hurdd da, y bardd a dwng ;
 Adroddion brwydrau eiddil,
 I lawr a'u math, lawer mil !





FERYDLIFOEDD Y GAERF.

“Llafara y lliciriant
Ei daran hir drwy y nant.”

Na laniont mewn ail einioes,
 Yn y dydd bo newid oes ;
 Na roed cân iddynt anadl,
 Na beirdd dwys eu bwrdd i'w dadl ;
 Ym mawl cledd, ni thembla clod
 Drydaniaeth brwydrau dinod ;
 A ganmolir gwŷn malais,
 A bradwyr trwch brwydrau trais ?
 Na ! edwant i ddinodedd.
 Pwnc diwrnod fydd clod eu cledd ;
 Datroir blaenoriaid eu trin,
 Oedd ddoe'n wŷr, heddyw'n werin ;
 A cheiff holl gleddyfau chwant
 Eu gweinio'n ddiogoniant.
 Ond ar hawl y brwydrau hedd,
 Nis dywaid un oes—" diwedd !"
 Ewybr dreiddia Brwydr Rhyddid
 Anadl a bron cenedl brid,
 Yn ffun hunan-ddiffyniad,
 Yn gred Glyw, yn gariad Gwlad,
 Gwrthrym fydd i'r gorthrwm fâr,
 Dry'n adwyau drwy'n daear.

Ar gleddyf, mae rhyglyddiant,
 A wâno chŵydd hunan chwant,
 A ladd rwysg, a oludd red
 Y mathrwr, trwm ei weithred,
 Yr hwn gais drwy drais roi 'i droed
 Ar freiniau arfer henoed.

Bosworth ar flaenau'n bysedd,
 A Waterloo, wnant hir wledd ;
 Brwydrau a gaed, heb rôdres,
 Yn creu llwydd—yn cario lles,
 Yn bwrw trais i'r obry trwch,
 I adnewyddu dawn heddwch ;

Brwydr Bosworth fu'n borth i'r byd,
 I ddod drwyddo at Ryddydd ;
 Bu'n borth i unben o barch
 Ddod yma'n Udd ddiamarch,
 I ddadrys ein hynys ni
 O wdennog gadwyni
 Weithiasai penbleth oesoedd
 O dreigl a chwymp, dirgel a choedd,
 I'n darostwng dan drawsder,
 A bwrw baich ar ein bro bêr.
 Myrierid im, a'r aur da,
 Câd Bosworth a'u cydbwysa.

Golewg yn ol ar gystudd Prydain.

Ym moreu yr helbul mawr ar Albion,
 Tremiai Rhufeinwyr tua'r môrfinion ;
 Ac, o syllu ar Ynys Caswallon,
 O bleser golwg, âi blys i'r galon ;—
 Trwy gadau distryw y giwdawd estron,
 A garw fradwriaeth gwyr o frodorion,
 Dwrn swrth ar y deyrnas hon—roes Caisar,
 Galedodd afar ar ein gwlad-ddefion.

Hyd hyn o'n hanes, yn ein tŷ'n hunain,
 Am hir adeg, yr oeddym ym Mbrydain ;
 Ni bai ymwelwr o wyneb milain,
 Neu edn niweidiol daenai ei adain,
 I ddwyn diowryd o dde na dwyrain,
 Hyd yr awr rhwyfodd dewr Eryr Rhufain,
 A'i oslef trwy'n hynyslain—yn cyrraedd,
 Yn eres grochwaedd, gan oer ysgrechain.

Gormes y Caisariaid.

Dyna drin wnaï'n dwyn dan dreth,
 A dirdra, godai ardreth
 Echrys ar ein Hynys hon,

I Gaisariaid go surion :
 A'u llengoedd mal llu angau,
 Oddifewn yn ymddofnau ;
 Cestyll, gwersyll, a garsiwn,
 Yn taeru hawl i'n tir hwn ;
 A'i holl hyd, i gyd o'i gwrr.
 A'i holl led gan allwleidiwr ;
 Gwnaed ni yn dlawd giwdawd gaeth,
 Heb enw o anibyniaeth ;
 Ys taenodd Suetoniaid,
 Dros ein bro, drawsion, heb raid ;
 Gwyr celyd Agricola,
 Gaseion dig, ysai'n da ;
 Nes ein dwyn yn weision dôf,
 A thyngu'n nerth i anghof ;
 Dinerth yr aethom danynt
 Am ganrif ar ganrif gynt.

Brudd Hen Dderwydd.

Yn nyddiau'r aflonyddwch,
 A ni yn llawn yn y llwch,—
 Yn gorfod, mewn gweddwdod gwâr,
 Rhoi cusan oer i Caisar,
 Hen Dderwydd, canmlwydd, mewn coed. —
 a gofiai

Ar gyfer ei faboed,
 Gan honni, er gwên henoed,
 Y dresn ddeuai eto ar droed.
 Dan dewfrig yn y wîg werdd,
 Dan gangau rhyw edn-gyngherdd
 Oedd, o reddf, mewn dof leddfau
 Galar rhydd, yn eglurhau
 Cwmp Prydain, a'u sain a'u si
 Hynaws yn ei ddihoeni ;

O'r fan hon, ar fin einioes,
 I'w brid wlad y brudiai loes,
 Poen drom, ond yn y pen draw—
 Y diwedd yn blodeuaw ;
 Dyma ei Frud am ei fro,
 Trwy niwlen, tra yn wylo,—

“ Dyn dybiai ddod ein diben,
 Hoedl bach ein cenedl, i ben ;
 Nid felly ! Hi dyf allan,
 I enw mawr, yn y man ;
 Er fod, yn awr, ar glawr gwlad
 Drwst ing ei darostyngiad,
 Ie, 'i sut ddaw'n is eto,—
 Ond o'i dwfn ing, dring ryw dro.

“ Syrth hirnos ar ei theyrnedd,
 A syfl ei brenhinol sedd ;
 Cyll ei nwyf, ac i'w lle naid
 Rhestr anwir o estroniaid.

Ei gwddf teg a oddef tan—iau'r Eryr,
 O ! 'r oeri wna'i hanian ;
 Anadl wyw y genedl wan
 Ddihoena ynddi 'i hunan.

“ Wedi mesur ei gofid am oesoedd,
 O dan estroniaid dawnus eu trinoedd,
 Wedi'r blin oddef drwy y blynyddoedd,
 Diluw o aerwyr ddeuant, laweroedd ;
 Cry' rym anciddil cawri'r mynyddoedd,
 O wyll ymylau, 'n tywallt eu miloedd
 Ar Ddinas y Dinasoedd,—i'w chwympo
 Ac i'w throedio, am draha'i gweithredoedd.

“ Yn nhrofa'r farn, ar fyrr, fyrr,
 I'w ororau a'r Eryr,

A thasga'i anferth esgyll,
Ar hwrdd o gyflymder hyll.

“ Awyr Prydain fydd yn darstain,
Trwy ei lefain tra wylofus ;
Gedy dalaeth ein brodoriaeth,
Fal ysglyfaeth afles, glwyfus.

“ Er arwain draw yr Eryr,
A'i waedd, o gyrraedd ein gwyr ;
Oes drahaus a thost, er hyn,
Arddelwaf i hir ddilyn ;
Y genedl, daroganir,
Gyst ddyheu dan gystudd hir ;
Gorthrwm a glwm, am ein gwlad,
Wrysgenni goresgyniad ;
A llwythau eraill weithion,
Treisiant hi tros ewyn tonn.

“ Anwariaid a'u banerwyr—anrheithiant
Yn rhith cynorthwywyr ;
Trwy linach ein teyrnach tyr
Al estronol ystrinwyr ;
Heidia'r marwol dramoriaid—i'n hynys,
Yn hanner gwallgofiaid,
Hi ddaw i boen, a'i hedd baid
Yn mhenbleth y drom ymblaid.

“ Sorrir y Llyw, sarheir Llys
Cynhwynol mainc ein hynys ;
Bydd enw mainc, byddin, a mur,
Boenydiol i benadur ;
Sefydlir gorsaf waedlyd
Llid a'i hawl, trwy'i lled a'i hyd ;
Try'n godwm i'n teyrngadair—
Hon a gyll ei henwog air ;

Ac o gostrel coeg estron,
 Yfir rhêg ar y fro hon ;
 Wenwyna 'i hawl gynhennid,
 Wna 'i llyw, un llaw, yn llawn llid,
 Ar y llaw arall, gwall gwaeth
 A ddryga 'i rhydd wriogaeth.
 Prydain a wêl gwymp brodyr,
 Ar y maes gwaed, gormes gwyr ;
 Cyll ei thraed—a'i gwaed ar ei gwedd,
 Ymwyr mwy i orwedd.

“ Ond gwelaf draw y daw yn y diwedd,
 Fal gwyrth arni, ryw flagur o'i theyrnedd,
 O gyff y genedl—fe gaiff ogonedd,
 Bywheir yn ei enw hawl ein brenhinedd,
 Pennwn a bauer impyn o'n bonedd
 Yn awr a chwifia yn yr uchafedd,
 Yng ngwên nwyfus Tangnefedd—cân Prydain
 Hynod arwyrain wedi hir orwedd.”

Hyn oedd air yr hen Dderwydd,
 A'i Frud, cyn symud o i swydd ;
 Rhy faith ei araeth i'w oed,
 Blinai ei anabl henoed ;
 A phan y llawn orffennodd,—yn y fan
 Efe a ymliwiodd,
 A buan draw ei ben droddi,
 Yn hen, hen ; yno hunodd.

Gormes y Saeson.

Pur ffodus y proffwydai
 Ein diwrnod niwl, dirnad wnai
 Dynesiad y wae nosol,
 A hardd wawr heddi, ar ei hol.
 Bu'r tonnog chwyl Brutanaidd,
 Yr un ffunud a'r Brud, braidd ;

Oblegyd pan oblygwyd pennwn—Rhwyf
 Rhufain ym mro'r Brutwn,
 Ymwelodd llawer miliwn
 O wŷr trahaus â'r tir hwn.

Prydain orfu gael llu llôg
 Rhag aerwyr Brithwyr brathog ;
 Ys, i'w gwasanaeth Sacsoniaid—huriodd
 I heriau'r dieithriaid ;
 Yn rhith dod i'n plith, o'n plaid,
 Anras trais wna'r estrysiaid.
 Hurio Sais fu yn arw siom,
 Drud ernes o'i draed arnom ;
 Hwt ! ei lawdrwm, frwnt ledrad,
 Dan annheg liw, dwyn ein gwlad.

Gormes y Normaniaid, ymgystlyniad y gormeswyr yn erbyn y Brython.

Wedi hyn, deuai i hawl
 Normaniaid,—yn rym unawl
 A'r Saeson,—a'u meibion maeth
 Yn honni ein brenhiniaeth ;
 Dwyblaid yn un grym deublyg,
 Yn amlhau i'n dal ymhlŷg ;—
 O'n gwlad fras a'n dinas deg
 Y'n hwtiwyd, heb un ateg ;
 Ag esgud nerth gwasgwyd ni
 Ar waered i Eryri ;
 Talgreig Cymru fu y fan
 I ni oll o hyn allan :

Darostyngiad y Cymry dan Iorwerth.

Anorfod oeddym yn nhwrf y dyddiau,
 Dan unfon noddod ein hen fynyddau ;
 Yno daliasem ein hanadl, oesau,
 Yn curo y gelyn o'n creig-waliau,

Oni bai i Iorwerth hebu ei eiriau,
 Nes y tarawodd ni â'i ystrywiau ;
 A i Dywysog di eisiau—fe n twyllodd,
 A dir wanychodd ein hen deyrnachau.

Anghydfyddiaethau y Cymry a'r Saeson.

Rhyw fyd terfysglyd a fu,
 A phoen wedyn yn ffynnu ;
 Hen ddant yn dwyn rhyw hin ddu
 A didoliad i deulu ;
 Rhyw seml wŷn a droes aml waith
 Ddau deulu yn ddwy dalaeth ;
 Neu ddau frawd yn ddwy Frydain,
 Oll yn ddrwg, a llawn o ddrain ;
 A'r hen ddrwg droai'n ddreigiau
 I annog nwyd i'n gwanhau ;
 Hen gâs a arddai'n gwysi
 Ein gwyr nôd a'n gwerin ni ;
 O hâd-gwysi dygasedd,
 Cnwd gwlad ydoedd cnawd i gledd ;
 A chenedl wrth genedl gynt,
 Trwy angau'r cledd y trengynt.

Yn flin i bawb fel hyn bu
 Term oesoedd at ormesu ;
 Odid oes—o daid i dad,
 Heb rifres sobr o afrad ;
 Gnawd i boen ddygn a di baid
 Ddeillio oddiwrth rudd wylliaid,
 A grwydrent mewn gwryhydri,
 A'u dwrn brad i daro'n bri.
 A gwedd aethus goddeithiwyd
 Ein trefi nawdd, trwy fwy nwyd
 O ddial di faddeuant
 Yn un â chŵydd human chwant ;

Ein bonedd a'n hurbennaeth,
 Rhwng amryw welch, yn deilch daeth.
 Hwn â darn o'r hen deyrnas
 Ai'n dreisiwr, o gyflwr gwas ;
 Y llall â darn, elyll du !
 Ar ei draws yn rhodresu ;
 Ac aerod teg y goron,
 Cyfiawn feib o'r cyfan fôn,
 O'u gorsedd yn y gwersyll,
 Hawl-yn-hawl â'u hâlon byll.

Rhyfeloedd y Rhosynau

Anrhaeth resennog yn rhith Rhosynau,
 Ar fyrdd o bleidwyr, fwriodd ei blodau,
 Yn nhaenfa sawyr y cynnen-fwysiau,
 Gwnai eu dylanwad i genedl-wyniau
 Waedu ein hynys a duo ein henwau ;
 Gwaed byw raiadrodd, oblegyd brwydrau
 Hydra galanas â'i neidr-golynau.
 Anferth ydoedd ei gwenwyn-frathiadau ;
 A Phrydain yng nghyffroadau—y pryd
 Hyderai yn iechyd hen deyrnachau.

Meddyliodd fod modd i alw
 Teyrn i'r wlad, drinai ar lw
 Ei llywodraeth helaeth hi,
 Yn ddyddiwr a nawdd iddi ;
 Hwn oedd deyrn na wyddid am
 Un mâd enw mwy dinam.
 O edryd ymerodron,
 Addurn sedd yr ynys hon,
 Rismwnt wnai arwr esmwyth,
 Yn llyw ar Brydain a'i llwyth ;
 O'i ddod i'w sedd, hi daw sôn
 Am ei rhos a'i hymryson.

Duw o'i dosturi hefyd ystyriodd
 Lidiog Rosynau 'r wlad, a gresynodd ;
 Nend y Ddau Rosyn a ddad-ddyrysodd,
 Yn nodd gem-wlithin y ddau gymhlethodd,
 Eu dail gŵyr-drawsion, dialgar, drwsiodd—
 Yr hedd ddilynai a arwydd-luniodd ;
 O'i benarglwyddiaeth, buan ryglyddodd
 I roi ymwared ;—i'w air ymwyrodd
 Y dial-hyrddiau ;—nid ail waharddodd,
 Nad, wele ! 'n weddus, y nwyd lonyddodd,
 A moddion ni omeddodd—i'n hynys,
 Tra gwaedai dinistr i'w gadw danodd.

Rhyw ail wawr a leuerai
 Yn glir ar ein tir a'n tai ;
 O'r prudd ochain,
 Angel Prydain,
 Fawr ei adain,
 Fry ehedodd ;
 A chan gynted
 A'r chwai luced,
 Ef i waered
 A gyfeiriodd.

Gan y porthor yn nôr Nef
 Y di-ingnaws Rôds-dangnef,
 Dderbyniai'n rhodd arbennig,
 Rhosyn Duw, er swyno dig ;
 A thrwsiad y pleth-rosyn
 Oedd fal ei foch—goch a gwyn ;
 Prydwedd dyfodol Prydain,
 Yn ardd rôs heb unrhyw ddrain !

Pwy wisg y Rhosyn gwyngoch ?

Cymro da, o waed cyfa coch !

Sibrwd lw ysbryd y wlad
 Deg fwriai gydgyfeiriad
 At Harri, yn anturus,
 Yn deyrn da'i radd—dwrn di rus,
 I wisgo'r Rhosyn gwyngoch,
 Droai'n dawel ryfel rôch.

Anogasant negesaeth,
 Sul a gŵyl, o dan sêl gaeth ;
 Gwyr o fri â gwladgar fron,
 Freiniwyd i ddwyn cyfrinion
 I Armorig, drum eurwawr,
 Rhwng Harri â ni, yn awr.

Mawr fael oedd caffael Kyffin,
 Wr hael, i goledd y rhin ;
 Dyn doeth oedd y Deon Du,
 Wyddai ateb o'r ddeutu ;
 Eon oedd y Deon Du,
 Wrth raid i bur weithredu ;
 O'i fain fâd nid ofnai fôr,
 Wrth ddwyn gair rhaith ein goror,
 I gyrraedd yr agoriad
 A driniau glo dôr ein gwlad ;
 I Henry'n deilwng anrheg,
 Etifedd ein teyrnedd teg.

Y cennad gwyh, Huw Conwy,
 Yn loew ei drefn, elai drwy
 Gyswynion ein gwasanaeth,
 Gan eu trin yn gyfrin gaeth,
 Hyd ddyfodiad addfedol
 Awr a rhaith agor y rhôl :
 Olwyn mewn olwyn elai,
 O bin i bin, heb un bai,
 A dirwynent i'r Ynys,
 Ar air llw, wir wr ei llys.

Ymgyrch anhymig Buckingham.

Ond Buckingham roes gam gŵyr,
 Bras iawn a byr o synwyr ;
 Rhy deneu'r gwaed Prydeiniawl
 Oedd ganddo i eilio'i hawl ;
 Rhy fuan yr ai 'i feiwyr
 Dros hawl eu gwlad, i gâd gwyr :
 Ow ! Buckingham, a'i gam gyrch,
 Tra siomgar troes ei ymgyrch ;
 Anffodus yn ei ffwdan
 Gyda'i lu, fu yn y fan :
 Ni wypai fyned nepell,
 Na phrosodd fin rhyw hin hell ;
 Nef drodd, gwaharddodd ei hynt,
 A'i diluw oedai'i helynt ;
 Hawdd y daliodd o'i dwylaw,
 Mal llestr, ryw gwmwl o'i llaw,
 Tywalltodd ef hyd holltau
 Cerygog ben creigiog bau,
 I fyned yn afonydd
 O genllif a rhedlif rhydd,
 A'i lanw ar frys lynnai'r fro,
 O'r corneint, er cau arno.
 Och ! Hafren ! trech na chyfraith
 Oedd ei dŵr, i luddio'i daith :
 Dull o awgrym nad Lloegrwr
 Fyddai flaenaf, gyntaf gwr ;
 Cymro, mal cynt, yr hynt hon
 A drigai yn Bendragon.

Wb ! Weobley a ddiboblodd
 Buckingham, a pham, pan ffodd
 Croesodd i grafanc Risiart,
 A theimlodd gur ei ddir ddart ?

Ond, Risiart ! na rodresa,
 Elyn hedd, na lawenha ;
 Fe dyrr y rhwysg—fe dry'r rhod.
 Mwynha d' ofwy,—mae'n dyfod.
 Gwae di, daeog ! daw dial,
 A myn Rhys y maen i'r wal.
 Mesur hawl y mae Syr Rhys,—
 I'r Ael iawn ar yr Ynys,—
 Mesurir maes i Harri,
 Eang, teg,—ond ing i ti !
 Ai argoel drwg rhyw ddirgel drefn,
 Yn swero ymgais y Crwmgefn,
 Oedd dryglam Buckingham ? Ho !
 Na, digwyddiad, gwae iddo !
 Wnai ennyn tan o wyniau,
 I ysu 'i fron a'i oes frau,
 I droi'i arswyd o'r orsedd,
 A'i erwin fyddin i fedd.

*Llaw Cymru gyda Harri Tudur, iarll Ris-
 mont.*

Coel iach, yn hytrach, oedd hyn
 I ddarbod nawdd i'w erbyn ;
 I rybuddio tair byddin
 I uno 'u trâs mewn un trin,
 Er mysgu dan rwym-wasgiad,
 Wridog lu, i wared gwlad
 O asael teyrn anghyfawn,
 A'i throi'n ol i'w theyrn iawn ;
 Yn aerfa fawr anorfod
 Gurai falch, lle goreu'i fod.
 Gwaeddi " Her !" a gwa'wdd Harri,
 A'u habl nerth, wnai ein pobl ni,—
 " O tyred, tyred Harri !
 Dyweddia, a nodda ni !"

Syr Rhys ap Thomas.

Syr Rhys ap Thomas lyfasodd—roi 'i air,
 A Harri a'i credodd,
 Hyd o Lydaw dyludodd,
 A phryd trin, i Fyllfwrdd trodd.
 A'i rym aer o Armorig,
 Yn ddiencil, ddwyfil ddig.

Y tiriad yn Aberdaugleddyf.

Caed yno Rismwnt a'r Hwntw,
 Law yn llaw, do, lw yn llw ;
 Gloywddur Aberdaugleddyf
 Wnai'r ddau gawr yn awr yn hyf :
 Ap Tudur, yn bur i'w bau,
 Ar hyn agorai 'i enau—
 Areithiai'n gall wrth ein gwyr,
 Dïofrydai 'i gyd-frodyr,
 I resu'n erbyn Risiard,
 A rhoi gwith i'w wyr o gard ;
 Nes cyrraedd Ynys Cawri,
 A'i hawl yn ol i'n hil ni.

Ymgrymai, gwenai y gwr,
 A dyna 'i eiriau, dwym arwr ;—
 “ Os fi'n wir sy' i fwynhau
 Y goron,—heblaw geiriau
 A gwag swm,—profwn mewn pryd—
 Dyma 'mwa a 'mywyd !
 At ornest hawl teyrnas deg
 Fy nheidiau,—hon fo'n hadeg !
 A chwithau—profwch weithion
 Nad sur frad a ysai'r fron,
 Ond rhin goreu teyrngariad,
 I alw i'w le lyw y wlad.
 Yn erbyn malais trais trwch,
 Tarian gwyr yw teyrngarwch ;

Teyrngarwch at 'r hen goron,
A'r iawn aer i arwain hon.

“Baich y brad a'r toriad hwn
At Rhisiart ni a'i troswn ;
Dyna'r gwr—bradwr Brydain !
Coll fydd, gan ein picell fain.
Llueddwn â'n llaw iddo—
O'i lurig falch, lawr ag fo !
Chwimrwydd, a Duw a Chymru,
Addawant oll ddydd o'n tu.”

Ar y gair hyawdl, O ! 'r gorhoïan—fu,
Diatal lamu hyd at ei luman ;
Gan swm aml bennwn ban—siffrwdiadau
Hyd y brynïau 'n dadebru anïan ;
Ymwibiai myrdd ym mhob man—i weld brys
Cymry, o wyllys, yn camrio allan.

Ein hesgob, yno 'n wisgi,—agorai
Y Gair, i'w cynghori,—
Eiddunai nawdd Iôn i ni,
Bendith Dduw, sef Duw Dewi.

*Cychwyniad y lluoedd i Bosworth dan nawdd
cenhedlaethol y Ddraig Goch.*

“Y Ddraig Goch roddai'r cychwy,”
Hyf welch dewr fu'n falch o'i dwyn ;
Morwriai fel mawr arwydd,
Neu eilum chwai lawn o chŵydd ;
Siffrwd drwy ffrwd awyr ffraw,
Drwy uchafion derch chwyfiaw ;
Gan chwaraeu yn nhonnau nen,
Ei phrawf hyf drwy'r ffurfafen ;
Dig lacio ac ad-glecian
Drwy sybwb mawr, dros bob man ;
Nes troi 'r fro yn gyftro gwyllt
O wrhydri rhaiadrwyllt.

Ymweithient tua'r Mwythig,
 A'u hanadl dewr yn dal dig ;
 A'u llun a'u gwedd, yn llawn gwyr—
 Galonnog, fywiog feiwyr ;
 Ac o'u blaen, yn gwbl unol,
 Syr Rhys, heb un gwas ar ol,
 Siasper, a'r T'wysog Harri,—
 Ba wr traws wynebai'r tri ?

Y cydrysfarjod ar Gefn Digoll.

Diogel ar Gefn Digoll,
 I ddant aer, llueddynt oll ;
 Perrott, a Wogan, a'r Morganiaid—dewr
 Tyrrent gyda'u cyd-blaid ;
 I ffurfio pleth—ffyrfhau plaid
 Ddialai ar gau ddeiliaid.

Bronnau duon " Brain " y Deau—oeddynt
 Eiddig ar fanerau ;
 A " Llewod " o bob lliwiau
 Yn ngherrynt y gwynt yn gwau—
 A llewod o bob lliwiau,
 Di ffug, wedi dod o'u ffau.

Ap Gruffydd deg, ddi freg fron,
 Lywiai dorfoedd gwlad Arfon ;
 A swyn mawrhydi Sion Ambredydd,
 Alwai i fyny lu Eifionnydd,—
 Hwy aent, yn llewod dan eu llywydd,
 I gâd y gelyn gyda'u gilydd.
 Dichwith oedd Rhys Bodychen,
 Yno 'n bur ar Fôn yn ben ;
 Gwr Mostyn, mewn grymusder,
 A phlant ei bau o Fflint bêr ;
 A Rhys Fawr, yn gawr a gaf,
 I awchu y Wlad Uchaf ;

Sel breyr y Salbriaid
 Oedd i'n plith—yn nawdd i'n plaid ;
 Pob enw mawr, pawb yn eu min—ddisgleirynt
 A dilwfr oeddynt ar dal y Freiddyn,
 A pha Loegyr na phlygai,
 Dan gedyrn mor chwyrn a chwai ?
 Pa wr dreng ddarparai drin,
 Fyth i feiddio 'r fath fyddin ?
 I Richmond, mewn gwir ffyddlondeb
 A'i ryfel, yn awr, o flaen neb,
 Rhoddai Corbed grêd ddi gryn,
 A'i gein-lu yn ei ganlyn ;
 A Thalbot, pan ddaeth helbul,
 Blaidd blwng, oedd mewn cyfwng cul ;
 Yntau yn awr, o'n tu ni,
 A'i ddwy fil oedd i'w foli.

Coedmor, hys !—cydmar Rhisiart,
 Ffei ! ei ddi bwyll, ffaidd hart !

Y parolod i'r freydr.

Ymlaen aent, gan amlhau'r nerth,
 Yn mhob cwm ceid meisb cymorth
 Yn rhuddin o fyddin ferth,
 Hwyr bwysent tua Bosworth.

Hwn yw'r maes, lle'r henwir mwy
 Frydain yn adferadwy.
 Gwyr Cymru, un tu, 'n llawn tân,
 O rin ynni 'r iawn anian ;
 Mal callestr yn eu rhestrau,
 Gwae y syr faidd agoshau
 I'w taro â dur—tery dân,
 I'w fynwes hyf ei hunan,
 A'i difa 'n llwyr fel dafn llraith
 Ar frigyn glir foregwaith.

Rhisiart frenin.

O'r tu arall, traeturiaid
 Ffurfient finfin eu blin blaid ;
 A Rhisiart oedd eu rhyswr,
 Abl un o fil, blaenaf wr ;
 Ag ael hagyr, gilwgus,
 Ar guwch y Ddraig Goch ddi rus
 Tremiai mewn dirmyg tramawr—
 Yn goeg-anheus, mewn gŵg mawr ;
 Bradawg oedd ei sibrydion
 A'i sisial dwys, isel dôn,—
 Swm trahaus o natur herr,
 O dordyn lid a dewrder,
 Ynghyd ag ias o gas gur
 At edyn nerthol Tudur.

Trwy'r drem, torrai ar ei draws,
 I dyngu'n groch, a dangaws
 Enyniad ei flin wyniau,
 Hydri gwyllt ei hyder gau.
 Ac ebe' fe, yn y fan,
 O gynnwrf ei ddrwg anian ;—

“ Am eu Draig, mae darogan
 Y baidd wneyd y Baedd yn wan !
 Ond, myn Sant Sior ! byddaf bôr byw,
 Heinyf, rhydd, neu farw heddyw !”

Desgrifiad o weithrediadau y frwydr.

Gan barodrwydd gwyniau brwydrol,—iasau
 O ysiant ymladdol
 Anadl eiddig dialeddol,
 Y ddwy fyddin ar wedd feiddiol,
 A gyfeirient olwg farwol,
 Un at arall, yn naturiol ;
 A diflin gâd, flaen ac ol—ar ddechrau
 Ing-waeau angeuol.

Rhagluniaeth, ar baladr goleuni—ter,
 Hwnt, oedd yn penodi
 Rhesau treiswyr i astrusi,
 A hwyl hyrwydd i lu Harri,
 I ail ynnill yn ol inni,
 Ein tir anwyl a'n tirioni ;
 A brwydr er adfer eu bri,—ydoedd hon,
 I'n Brython bur wythi.

Gerwin wŷs anwar yr udgorn seiniai,
 A thwrw arwrol uthyr or-awriai,
 Trwyr awyr uchod, hir yr her-wawchiai,—
 A swm, hyd adref, hyson a didrai,
 O bwyntiau wybyr, a'i ban atebai,
 Hedd-luest Anian a ddolysteiniai ;
 Mal ar wirodydd, y milwr wridai,
 Ei ysbryd enwyllt a'i asbri daniai,
 A gwŷn arf a gynhyrfai—dechreu wnaeth
 Mawr rôch aerwriaeth, a'r march weryrai.
 O ! 'r rhengoedd !—ein tynged rhyngddynt
 hongia !

Syr Rhys ap Domos yr yspaid yma
 Dasgai ei filwyr, ac nid ysgafala,
 Ond tynn i'r byw oedd tynwyr y bwa,—
 Tynnent am goron Britannia,—cystal
 Ar awr y treial ag arwyr Troia.

Y gwyr o saethyddion gwarsyth oeddynt,
 A bywyd-annel y bwa dynnynt,
 A thaffai cawri saethau fel corwynt,
 Yn haenau dallol, y nen dywyllt ;
 Yn do arswydus hwy draws ehedynt,
 A thrwy dariannau, aruthr drywenynt,
 Ein trâs, o gwmpas a gwympynt !—ond mwy
 O âch Afarwy i'r llwch a fwrynt.

A phoethach, boethach y bu
 Neges wythig y saethu ;
 Saeth ar ol saeth gyda si
 Echrysawl fylchiai'r rhesi ;
 Ac Angau yn rhygyngawl
 Rodianna, i hela 'i hawl ;
 Gan hadl anadl ei enau,
 Lluaws a geid yn llesghau ;
 Aml arwr mwy a loriwyd,
 Wele i fedd wala o fwyd ;
 Gweld gwaed, galedai gedyrn
 At drwr a châd dewr a chwyrn,
 Can archoll yn cynyrchu
 Aidd i ladd, yn y ddau lu.

Gyda hyn, Rhisiard, a'r gâd yn wresog—
 Bwria ergydion yn bur gawodog—
 Ei ddu ochr yno ddechreuai annog,
 A'i milain wasgu ymlaen i ysgog ;
 Ac yntau 'i hunan fal eigion tonnog,
 Treiglai 'i wyniau i'r antur galonnog :
 Hyn a argoelai Henry wagelog,
 A pharotoai i'r cyffro taeog,
 Efo 'i fyddin fyw feiddiog—ni syflai
 Ac ni ddorai ei elyn cynddeiriog.

Pwys y rhuthr oedd aruthrol,—ac hedfa
 Y cadfeirch llamsachol,
 Yn hyrddiau anwaharddol—
 Antur i neb eu troi'n ol.

Marchogion ym mroch agwedd—ellyllon
 Cyllellawg brad-rysedd ;
 Diangai clust o dinc cledd
 Hydri gwŷr di drugaredd.

Ow ! Brandon ! with sſon praff Fanner—Prydain,
 Prid oedd ei oender ;
 Llumanydd i r lle mynner,
 Noddwr hyf, na ddorai her.

Ar ei luman, carlamu—wnaeth Rhisiart,
 A throes i'w drywanu,
 Mab y fall, a'i fwyall fu,
 Wrth-arwr i'w ferthyru.

Ond trwy y ſintai troai y fantol ;
 Y brwd, hyderus, burwaed Tuduroł
 Ferwai wythenau'r ſyddin Frytl onol,
 Henry orfyddai yr honmwr arſeiddiol,
 A bwriai adref yr ynni brwydrol
 Yn erchyll foryn, a rhoch llifeiriol
 O hyll adladdiad, hallt, dialeddol,
 Ar fronau anwir y dorf frenhinol ;
 Dyna nawf y donn yn ol,—yn ffodus
 Troi wna'i'n warthus y teyrn yn ei wrthol.

Mae ffawd ac anffawd wrth gynffon—cadfarch
 Cyhydfwng a digllon ;
 Rhy arwydd â'i weryron,
 Lle ffynno honno neu hon.

At Harri ſſel troai ffawd
 Unſurf,—at Risiart anffawd.

Ap Tudur oedd yn curo—a rhesau
 Rhisiart yn teneuo ;
 A chledd Siaspar yn taro,
 Ddiwrnod trin, ddau ar un tro.

I ddial teryll ni ddaliai tarian,
 Troi wna'i rhengoedd y teyrn i ryw hongian,
 Ac ar eu gogwydd, gwyro a gwegian—
 Yn wyneb eu hambarch yn bwhwman,

Ffiroeni, a gwynnu, mewn ffyrnig anian,—
 Cnoi gwell, o ofid, gan y gyflafan ;
 Rhusa i'r tro Rhisiart, druan,—dip neu ddau,
 A'i eiddig aelau mal rhyw ddwy geulan ;
 Ond O! ei ddewredd!—nid oedd a'i hoeraï,
 Na dyn na diafol, na dawn a'i dofai ;
 Golygon y Ddraig ail-gynddeiriogai
 Ei galon ddiriad, gelyn ni ddorai ;
 Ei luon agwrdd a ail anogai,
 Cyd-wydneddwech mewn cad adnewyddai ;
 Fw helaf antur hwyliai ei fintai—
 Tewder ei osgordd ar Tudur wasgai,—
 Yn fôr o chwys ei farch chwai—i'r cyrch hwn,
 Yn ysbeyd annwn, a ysbardunai.
 Trwy y canol, mal y Twre ei hunan,
 Ar annel bywiog ei garnol buan,
 Yngweisiai at redeg, megys trydan,
 Gopyn llanog, gipio ein lluman,
 A bwrw ar Harri, ei'n breyr eirian,
 Holl adwyth ymi melldith ei anian,
 Nes, â throed dig, ei sathru tan—echrys
 Wyniau ei 'wyllys o hynny allan.

Syr Sion, oddiwrth fôn y faniar,—druan
 Darawyd i'r ddaear ;
 Yn yr ergyd arwrgar,
 Is dwrn bwys gormesdeyrn bâr.

Taer gydiai, trwy y godwrdd,—heb unon
 Yn ein Baner agwrdd ;
 Ni chaffai prin ei chyffwrdd—
 'Lawr â'hi o'i law, ar hwrdd.

Ym myw yr adeg Rhys Amhredydd,—ar air
 Harri, ai 'n llumanydd,—
 " Cymro fu—Cymro a fydd "
 Benaerwr a banerydd !

Nid Rhisiart a'i gyd-dreiswyr—llurygog
 Allai rwygo'n rhestyr ;
 Trwy'r gwrych-flew o ffynwewyr,
 Pa ofer gamp a fu'r gyrr ?

Llu Cymru ! Nid mur llac, amrwd—ydoedd,
 Ddatodai ar hergwd,—
 Nid cleiach brau, ond calch brwd,
 Dinas aer nad ai 'n swrwd.

Crymu wnaeth y Crwm yn ol,
 Er ei yriad arwrol ;
 A'i farch-lu 'n ymdafu 'n dost,
 Dratheryll, drythyll drathost ;
 Pob cadfarch yn tywarchu—
 Torri y llawr trwy y llu ;
 A'r gwayw ffyn yn rhwygo'u ffordd,
 Rhyfel-dwrff a mawr faldordd,
 Mewn dewr-stwr trwm, yn darstain,
 Rwyfawg lu ! eu harfau glain ;
 Gan rincian yn yr encil,
 O ddig cas, eu dannedd cil ;
 A'u lluryg, fal croen llawrudd,
 Yn wrid trwch o orwaed rhudd ;
 Neidiai gwaed hyd egwydydd
 Pob cadfarch a rhedfarch rhydd,
 Tra'n wasarn i'w trwm garniad,
 Gyrff gwyr, cymrodyr ym mrad.

Pryder Stanley.

Stanley, i'r cymelrhi mawr,
 Dynesai yn wydn aesawr ;
 Hwyr o'i dwll rhodiai allan,
 A'i gâd-dorf fig tua'r fan ;
 Edrychodd pwy wnai drechu,
 Cyn ceisio taro un tu ;

Ofnai falais trais trwm,
Eofngryf lid y Cefngwrwm.

I Rhisiart eisoes rhoisai
Ei fab yn wystl,— ef be' wnai?
Os troi wnai yn yr ystrin
Nerth bron yng ngwrth y Brenin,
Collai ei fab! ond call fu,
Hir oedlodd i'w waredu.

Er hynny, mae rhyw anair
O gas liw, ac isel air,
I'r tro hwn—rhyw watwor oedd,
Drwc ehud—gyda'r cyhoedd;
Bloedd rhyddid gwlad brid Brydain,
Ro'i wŷs i'w gleddyf o'r wain,
A dylasai gwlad-lesiant
Y bobl oll, heibio i'w blant,
Ei yrru 'mlaen yn arab
Dros y myrdd—Duw dros y mab.*

Y genedl ar ei gwyneb,
Hawlia 'n uwch na theulu neb;
Gnawd i arwr gwên-dirion
Aberthu teulu at hon;
Trawsedd i wr betruso,
Os gwel frâd yn siglo'i fro;
I Dd'ledog mae'n ddyladwy,
O gefn ei farch, gofio'n fwy
Am ei wlad, nag am ei les
Ei hun, neu fun ei fynwes;
Ie, yn nalfa anwyf fab,
Naw mwy yw cenedl na mab.

*Yr oedd mab Stanley yn wystl gan Rhisiart, ac wedi methu dianc.

Ond pa fai, os teimlai tad?
 Di-ymliw gyd-ymdeimlad
 Haeddai gael; ond eiddig ŷm,
 A drwg iawn ei dro gennym,
 Yn dywystlo mab destlus
 Erioed, i lofrudd di rus.
 Nacaesai Rhys wancus raib
 Ffrom feistr, i offrwm ei fab
 A'i rwymo'n swrth, er mwyn saib,
 Yngwystl gwir, fyth i'r fath âb;
 Ah Stanley! Tynnaist donn-loes
 Dros dy dŷ, a dristâi d'oes.

Ar Rhisiart ai'n ddyrswch,
 Fe welai dro 'r rhyfel drwch;
 Twrr o chwyrn gedyrn ei gâd
 Yn fferru'n un corfforiad
 O gelanedd gwael yno,
 Ym maes eu brad, ormes bro.

A Stanley a'i estyn-lin
 Ato, mwy, yn troi 'r tu min;
 A Siaspar ar wasgar wysg
 Eu cefnau, dorfau 'i derfysg.

Yn ei orddwy anarddun,
 Tra yn synio ynddo 'i hun,
 Ar warchul effaith ei farchlu hyffordd,
 A Siaspar yn ysgar rhau o'i osgordd,
 A'i flaenwyr ffel, fil yn rhoi ffordd—yn chwai,
 Gerwin gilwgai ar ein gwelygordd.

Ac at ei bencapteniaid—y melltia
 Ryw ymwylltiol amnaid,
 Gan floeddio,—“Chwyr ruthro raid,
 At Harri, ben traeturiaid!

“ Dewis 'n awr nid oes i ni—ond, nodwch,
 Dieneidio Harri ;
 Herr i'w meib,—Harri a Mi
 Ymdynnwn mwy am dani.

“ Boed lym—boed gyflym eich gyrr,
 A phawb yn chwim a phybyr ;
 Canlynwch—eilfyddwch fi !
 Dwrn Coron wna dranc Harri.

“ Mynn Sant Sior, mi a'i lloriaf !
 Y funud yw i fyned—Af !”

Yn mroch y gair, y march gwyn
 Ymneidiai mewn munudyn ;
 Hwnt â Rhisiart a'i ryswyr,
 O greulon wŷg, ar lawn yrr,
 Yn drinwyr diarynnaig,
 O dan ddrud edyn y Ddraig ;
 Marc gem-res meiwyr Cymru,
 A llawr cauolbwynt ein llu.

At Richmond mewn eonder,
 Pwysai 'i ddigllon waywffon fferr ;
 Yn hymny deuai 'n hoenwch
 Syr Rhys ab Thomas, gwas gwych,
 Fe wnai at fod yn fin at fin,
 Gyfer-wyneb â'r gau-frenin ;
 Arwrol oedd gweryriad
 A mawr wawch certh eu meirch cad.
 Dau farchog mewn hyrddiog hynt—
 Pin teyrnas pwyntiai arnynt.

Bu galed y bygylu
 A'r hyrddio dewr, o'r ddau du ;
 Ni ddorai y ddau wron
 Unrhyw ffurf wnai'r wayw ffon ;

A theflynt o'u gwrthafau
 Ddyrnod am ddyrnod, y ddau ;
 Nes i Syr Rhys, aswy'r hwrdd,
 Gynddeiriogi 'n ddewr agwrdd,
 Ac â'i fraich fraisg a'i froch fryd,
 Daro 'i swyallt drwy 'i fywyd.

Ar ddyrnod mor ddiwyrni—
 I lawr ag ef, mal rhyw gi !

A hi yn brin nawn, pen y Breninwyr
 Poerid i'w wyneb dan draed Prydeinwyr ;
 A llywydd du, bradog,—lleiddiad y brodyr,
 Felly obrwywyd trwy swyallt breyr ;
 Ei gorffyn euog rwygai'r sffynwewyr,
 A phwy ofalai?—ffoai ei filwyr,
 Gan lwfr redeg o ganol y frwydyr ;—
 Gorhoenus ydoedd gawriau ein sawdwyr.
 Daeth BUDDUGOLIAETH i'n gwyr—uchelfri,
 A'n Draig yn hoewi drwy eigion awyr.

Y goron hwyliwyd o goryn halog
 Dienaid fradwr, dyn diofrydog,
 I'w throi i Harri 'n dalaeth oreurog,
 Mal yr aer teilwng—mal arwr talog,
 Yrrai bwynt dial ar ben y taeog ;
 Uwch-raddol linell âch hir-ddolennog
 A'i nodasai i fod yn dywysog ;
 A'i hoedl yn hannu o edlin enwog
 Yr Ynys, a'i choronog—Unbennaeth,
 Drwy hen gadwraeth hawl deyrn-gadeiriog.

Cyfrngiad Rhagluniaeth er adferu Unbennaeth Prydain i'r Brython.

O dŵr glan da Ragluniaeth,
 I le 'r gâd Addoliad ddaeth ;
 A Heddwch, un llaw iddi,
 A Mawl hardd, i'w hymyl hi,

I fwrw llif o ofer llon
 I hoewalau'r awelon
 O ddifedur ddefosiwn,
 Am râd Duw 'r ymwarded hwn ;
 A'n byddin, gyda gwin y gwynt.
 Ehedlif gras anadlynt,
 I 'mostwng ar y maes-dir,
 Mewn flwch ddiolchgarwch gwir,
 I Frenin y Brenhinoedd,
 Ddaeth a'r fuddugoliaeth goedd
 O du hen Gymru, fu 'n goll
 Trwy ystwrff trais diarffoll.

Harri Frenin
 Gyda 'i fyddin,
 Ar y ddeulin,
 Ior addolent ;
 " Ti Dduw folwn,"
 Mewn cyd-fyrdwn,
 A'u gwlad-farwn,
 Wiw glodfforent.

Llywydd dwrn enillodd deyrnas,
 Amlhâi i gred, ym mawl gras ;
 Amlhâi i gerdd mawlgwir-Dduw,
 Dogn y dydd oedd—" Digon Duw."
 Eu teyrnged hwynt, er ungrwr,
 Ga'i Duw, hollalluog dŵr.
 Têr orchwyl patriarchaidd,
 O rywiog rin Cymreig wraidd.

*Canlyniadau deddeydd buddugoliaethau
 Harri Tudur.*

O gael y fuddugoliaeth,
 Nid oedd Cymru'n Gymru gaeth ;
 Brydain nid oedd wobr heidwyr,
 Drawsiai i mewn dros y mur ;

Neu gau deyrn euog a du,
 O honi 'i hunan yn hannu ;
 Ond dedwydd iawn drestadaeth
 Unben mwyn o'i meibion maeth,
 Cain etifedd cyntefig.
 Yn nhwf ein bro—fon a brig ;
 Pa wr, uwch pawb, mewn parch pur ?
 Pwy y tad, ond Ap Tudur ?

Bu llawer wyneb llewaidd—o Rufain,
 Ar ofwy milwraidd
 Llym, i godi'n grym a'n gwraidd,
 O'r tyner dir Brutanaidd,
 A phlannu cyff o linach—yr Eryr
 Ar âr ein hen deyrn-âch ;
 Ond erioed Prydeinwyr iach
 A fethrynt y gyfathrach.

Yn aml donn, Saeson nesasant—ar chŵydd
 I orchuddio'n meddiant ;
 Ond essill Hu gadwasant
 Yn loyw i'n plith hawl ein plant.

Daniaid, Normaniaid, o'r minion—treisient
 Hir oesoedd ein coron ;
 Ond heb rith, meddiant Brython
 Eto o hyd tytw hon.

Rhyfedd ogonedd gwiwnef!—O gwelwn,
 Yn galw pawb adref,
 I hoenus droi 'n hynys dref
 O'i du ing i dangnef.

Er holl alar, arwyl Llywelyn,—trais
 Trwm arglwyddi'r terfyn,
 Aer o waed Cymry wedyn
 Rannai Naf yn frenin in'.

Os prid galonddid Glyndwr—a ballodd

Heb wella ein cyflwr.

Harri gaed o deulu'r gwr,

Ac Harri fu'n goncwerwr ;

Enillodd ef hen allu

A lionwych hawl llinach Hu,

I'n dwylo 'n ol, a dal wnaeth

Ein hanwyl hen frenhiniaeth.

Llain Bosworth ! Llyna 'i bwysi,—

Elwa'n ol ein hawl i ni ;

Aeth prid Unbennaeth Prydain,

I'r iawn le, ar hyn o lain ;

O Fosworth, ti wnei siwsig,

Hoen di drai ynnod a drig.

Prydain Fawr, o dan wawr well,

O hyn allan âi 'n well-well

Gwrthodai'r gorthoadol

Wedd trais, oedd eto ar ol,

A dygai wawr diwygiad

I lanw ei le yn y wlad.

Y wawr dorrai 'n wrid arab,

Ar wersyll pebyll y Pab ;

Ac wele ! y cywilydd

I'w wyneb ddaeth pan bu ddydd ;

Mwy, ofer goel myfyr gau

Pobl dan enw y Pabau,

I faglu ein prif eglwys.

Gaffai 'i ddal a dial dwys ;

Y fin-ddu, rwym, drefn ddi ras,

Byth daflwyd fel peth diflas.

Bri ar seremoni mwys,

Coeglyd, mewn gwlad ac eglwys,

O ystryw nwyf estron aidd
 Rhith-ddenol an-Frythonaidd,—
 Hyn, weithion, a ddynoethwyd,
 Tynnwyd Ffydd yn rhydd o'r rhwyd.
 Rhith i gyd oedd ymborth gau
 O fwydion hen ddesodau ;
 Eithr o lith Ysgrythyr Lân,
 Seigiau moethus gaem weithian.

A derwen hen y deyrn hawl,
 Ymgodai'n wrysg mygedawl,
 I fawr agwedd tewfrigog.
 Yn dwng grair uwch byd yn grog ;
 Derwen yr hen Duduriaid,
 Ei bon ffyrthai yn ddibaid,
 A'i cheinc aent mewn chwaon coedd
 Yn bleth am bobl a icithoedd ;
 Pleth llywodraeth plith lladron,
 Cerddai'r gwrysg i'r ddaear gron,
 Ac erbyn hyn o'i hanes,
 Hi blan ym mhob man ei mes ;
 I'r wybr gyrr ei brig araul,
 Hi saif rhwng gorsafau 'r haul,
 O'r Eilir hyd orielau
 Haulfod glwys yr Elfed glau ;
 Epil llwythau pell weithion
 Wasg ynghyd is cangau hon ;
 I'w bro hwynt tardd ei braint hi,
 Gwynt Rhyddid a gânt drwyddi ;
 O'i thwf i'r, byth ddyferyd
 Wna gwllith ei bendith i'r byd.
 Ym Mosworth planwyd mesen
 Wnelai brif frenhinol bren ;
 A mesen oedd o'n maes ni,
 O iawn ddâr ein hen dderi.

Terfyn yr awdl, gyda " Byw fo'r Frenhines."


Felly o Gymru mae'r gwaed.


Rhin eu hanwyl frenhinwaed
A gerdd i sirioli 'n gain
Wyneb wrid Banon Brydain.

O Gymro teg, mae'r gwaed da
Yn naturiaeth Victoria.

Gan hyny, ni gauwn hanes—Bosworth,
A'n bys ar dant cynnes,—
Eiddunwn i'n prif ddynes—mewn trwyadl
Ferw o un anadl,—“Byw fo'r Frenhines,”
Eiddunwn i'n prif ddynes,
Mewn trwyadl ferw o un anadl,—
“Byw fo'r Frenhines.”









Tynnwyd o'r
catalog
Withdrawn from
catalogue 8/2/07





